# ECO'R WYDDFA

RHIF 325 MEDI 2005 PRIS 40c


**PWYSIG IAWN**

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol *Eco'r Wyddfa* yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, nos Fercher, 14 Medi am 7.30 yh.
Taer erfynnir am eich presenoldeb.
Eich papur chi ydi o.




# 77 milltir yr awr ar lôn 30mya

**MAE pryder am ddiogelwch pobol a phlant yr ardal oherwydd gor-yrru ar ffyrdd peryglus. Ac wrth i un car gael ei fesur yn gyrru 77 milltir yr awr ar lôn 30mya mewn un pentref, mae galw ar yr awdurdodau i ddatrys y broblem rŵan, cyn bod damwain ddifrifol yn digwydd.**

Mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Llanrug fe drafodwyd y mater a thynnwyd sylw at sawl lleoliad peryglus yn yr ardal.

Un o'r rheiny oedd croesffordd yr Efail a Ffordd Glanmoelwyn, Llanrug. Mae nifer o drigolion yn poeni y gallai damwain ddigwydd yn y dyfodol gan fod trafnidiaeth cyson a phrysur yn defnyddio'r groesffordd. Yr hyn sy'n gwneud y sefyllfa yn waeth yw bod cymaint o blant yn byw ac yn chwarae yn ei hymyl – ac mae galw am rhyw ddull o arafu'r traffig.

Mynegwyd pryderon hefyd am ardal Tan-y-Coed a Bryngwyn. Yn gyntaf mae angen gwella cyflwr ochr y ffordd o Groeslon Marc i Groesffordd Bryngwyn, ond hefyd mae nifer yn poeni am ddiogelwch y ffordd o Fecws Bryngwyn i lawr i Dan-y-Coed.

Gan fod ceir yn cael eu parcio o flaen y tai a cheir yn trafeilio ar hyd y ffordd yn llawer rhy gyflym, mae'n lôn beryglus – yn enwedig gan fod becws boblogaidd a maes carafanau ar groesffordd Bryngwyn. Mae hefyd yn anodd iawn i gerddwyr gael lle i gerdded yn ddiogel yma.

Yn ddiweddar bu un o'r trigolion mewn cysylltiad efo 'Siwrnai Saff', sy'n ymgyrchu i wneud ffyrdd Gogledd Cymru yn saffach drwy annog unigolion i gadw at y cyfyngiadau cyflymder, er mwyn tynnu sylw at y broblem.

Gosodwyd offer mesur traffic ar y stryd 'nôl ym mis Ebrill ac mae'r canlyniadau yn cadarnhau'r pryderon.

Roedd 61% o'r drafnidiaeth yn gor-yrru dros y 30mya, gyda'r rhan fwya o'r rhain yn gyrru ar gyflymder o 39mya – bron i draean yn uwch na'r cyfyngiad cyflymder.

Ond yr hyn sy'n fwy syfrdanol yw bod un car wedi bod yn gyrru ar 77mya. Fe ddigwyddodd hyn yn ystod oriau mân y bore – ond roedd gweddill y cyflymderau uchaf hefyd dros 50mya. Mae'r wybodaeth nawr wedi ei basio ymlaen i Heddlu Gogledd Cymru.

Hefyd yn y cyfarfod cymuned roedd trafod ar broblemau traffic yn ochra Cwm y Glo. Gan fod ceir yn cael eu parcio ar ddwy ochr y ffordd yn y pentref, nid yw cwmni bysiau KMP yn gallu gyrru drwy'r pentref yn gynnar yn y bore nac ar ddiwedd y dydd. Mae hyn yn achosi pryder i'r bobl hynny sy'n llwyr ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Hefyd bydd cyfyngder cyflymdra o 40mya yn cael ei roi ar y ffordd A4086 o Gwm y Glo i Lanrug. Mae'r cyngor wedi gofyn am welliant i hyn a chael y cyfyngiad i gychwyn o'r tu draw i'r Fricsan gan bod y ffordd yn achosi pryder i nifer yn yr ardal.

Am adroddiad llawn y cyngor, trowch i dudalen 14.

# PLANT YR ARDAL AR LWYFAN Y FAENOL



*Plant Ysgol Feithrin Deiniolen yn canu 'Fuoch chi 'rioed yn morio?' yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau 2005.*

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 325**
**HYDREF 2005**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR


**Tîm Golygyddol**
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com
Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**DEINIOLEN:** Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


Cefnogwch ein Hysbysebwyr

**Y RHIFYN NESAF**

**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, 19 MEDI**
**Os gwelwch yn dda Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 29 MEDI**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| HYDREF | 19 Medi | 29 Medi | Penisarwaun | Ann Evans (870407) |

## Llythyrau

9 Victoria Park
Bangor

Annwyl Syr,
Diolch am y llun o ddosbarth IIX 1928, Ysgol Brynrefail. Fi yw'r drydedd o'r pen ar y dde yn y llinell flaen – Olwen Davies. Mae'n chwith gen i feddwl bod y rhan fwyaf o'r criw bach yna wedi'n gadael. Sgwn i pwy arall sy'n dal yma?

Fe adewais i'r Ysgol am Brifysgol Bangor yn 1934. Os yw'r dyddiad yn iawn fe ddylwn i fod yn 13 oed yn y llun (cael fy ngeni yn 1916) ond does 'na ddim golwg 13 arnaf!

Roeddwn yn hapus yn yr ysgol ac yn hoffi dysgu a darllen. A dyna fy mhrif bleser heddiw – efo sbectol!

Rhwydd hynt i'r Eco
Diolch

OLWEN M. DAVIES

## Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Croeso cynnes i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* i dymor newydd Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai. O fis Medi hyd fis Mawrth 2006, ar drydedd nos Fawrth y mis, bydd chwech o gyfarfodydd gyda darlithiau neu sgyrsiau diddorol ar bob agwedd ar lenyddiaeth.

Yn y cyfarfod cyntaf, nos Fawrth, 20 Medi, y siaradwr gwadd yw'r Prif Lenor Dylan Iorwerth, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau eleni. Cafodd glod uchel iawn am ei gyfrol *Darnau*, ac yr oedd, yn ôl y beirniaid, 'ben ac ysgwydd uwchben ei gyd-gystadleuwyr'.

Mae'r siaradwyr eraill yn cynnwys Prifardd, actores, darlithwyr a'r Archdderwydd ei hun.

Cynhelir y cyfarfodydd yn Stafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 o'r gloch.

Os hoffech gael y rhaglen lawn, ffoniwch (01286) 674478 neu e-bost: llinosc@bt openworld.com


**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**

**YSWIRIO EICH TŶ**
(i arbed colled i chi);
**YSWIRIO EICH CAR**
(i arbed colled i chi ); neu
**YSWIRIO EICH BYWYD**
( i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**
**Andre (Bethel/Llanberis)**
**Bryn (Môn)**
**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**
**John Eifion (Penisarwaun)**

**CDH**
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
**Ffôn: (01248) 355055**

**Dodrefn Da am Bris Discount**
THE SALES HALL
**Y NEUADD ARWERTHIANT**
**CWM-Y-GLO**
Ffôn: **01286 879060**
Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.
Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds' Ffatrïoedd am brisiau rhad dros ben.
Ar Agor: **LLUN – SADWRN 10.30 – 5p.m.**

**BWS BACH AR LOG**

**Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.**
**Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan**
**(01248) 361044**
**D. P. OWENS RHIWLAS**

**Gosodwr Teils**
Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
**01286 830 805**

**CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR**
Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**
Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**
Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

**am help:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
**01286 672626 neu 01341 422575**

**R.M. (DIC) PARRY**
**PEINTIWR AC ADDURNWR**
*PRISIAU RHESYMOL*
**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**

# Cynllun yr Anialwch Werdd



Fe fu Robin Crag, 20 oed, o Ddinorwig, yn rhan o gynllun cyfnewid arloesol rhwng Cymru a Libia yn ddiweddar. Dyma'r cyfnewid ieuenctid cyntaf rhwng Libia ac unrhyw ran o Brydain am 35 mlynedd! Roedd 14 person ifanc o Gymru yn rhan o'r gyfnewid, fe ddaethant o dri mudiad: Gwerin y Coed, Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaladwy, ac Urdd Gobaith Cymru. Fe'u dewiswyd o bob rhan o Gymru, gan gynnwys pump o'r Gogledd.

Mae Robin yn aelod o Werin y Coed ac o Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaladwy, mudiad sy'n ceisio addysgu pobl ifanc ynglŷn â datblygu cynaladwy, a'u grymuso i weithredu ar y pethau y maent yn credu ynddynt. Roedd 14 o bobl ifanc o Tripoli, prifddinas Libia, yn ffurfio hanner arall y grŵp. Gwlad yng Ngogledd Affrica yw Libia, gyda phoblogaeth o tua phedair miliwn, ond arwynebedd tir llawer yn fwy na Chymru; mae anialwch y Sahara yn gorchuddio 90% o'r wlad.

Yn ystod y gwyliau Pasg, fe ymwelodd y grŵp o Gymru â Libia am bythefnos. Fe gawsant groeso cynnes iawn yno gan y Libiaid, gan aros yn eu cartrefi a chael cyfle i gael cryn flas ar y wlad. Fe ymwelsant hefyd â dadfeilion y dinasoedd Rhufeinig, Leptis Magna a Sabratha, a'r dref Saharaidd draddodiadol, Ghadames. Yn ogystal â harddwch gweledol yr anialwch a'r bensaernïaeth hynafol, cawsant brofi cerddoriaeth draddodiadol y wlad, a dysgu rhywfaint o'r Arabeg. Fe fagwyd dealltwriaeth a pharch o'r diwylliant Libiaidd a'r ffydd Islamaidd, rhywbeth sy'n bwysig i'r Libiaid ifanc.

Ym mis Gorffennaf, fe groesawyd y grŵp o Libia i Gymru am bythefnos, gan ymweld â phob cwr o Gymru. Ceisiwyd rhoi blas i'r Libiaid o'n amgylchedd a'n diwylliant, ein hiaith a'n tirlun. Fe arhosodd Carîm, partner Libiaidd Robin, yn Ninorwig gydag ef am ran o'r ymweliad. Fe synnodd ar ba mor wyrdd oedd Cymru, a pha mor fawr oedd mynyddoedd Eryri! Ar 14 Gorffennaf, fe gynhaliwyd Noson Lawen i'r grŵp ym Mynydd Llandegai. Yn ogystal ag aelodau'r grŵp, fe berfformiodd plant lleol o Ddinorwig, Mynydd Llandegai a Thregarth, iddynt gael profi cerddoriaeth a diwylliant Cymraeg. Fe ganodd y Libiaid hefyd, ac i gloi'r noson, fe ganwyd 'Hen wlad fy nhadau' a'r anthem genedlaethol Libiaidd!

Trannoeth, ymwelodd pawb â'r Amgueddfa Lechi a Chastell Dolbadarn yn Llanberis, ac yna i'r Brifysgol ym Mangor i glywed am Ddatblygu Cynaliadwy ac am yr ymchwil amgylcheddol mae'r brifysgol yn ei wneud. Ar yr 16eg, fe welsant Gastell Caernarfon, cyn mynd i wersylla ar fferm fynyddig yn Llanfrothen. Ymysg uchafbwyntiau eraill yr ymweliad oedd Canolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth, Sesiwn Fawr Dolgellau, Sioe Amaethyddol Llanelwedd, Amgueddfa Sain Ffagan a'r Cynulliad yng Nghaerdydd, lle cyfarfu Jane Davidson, y gweinidog addysg, â'r grŵp.

Un o brif amcanion y cynllun yw creu safle we rhyngweithiol a thairieithog (Cymraeg, Arabeg, Saesneg) ynglŷn â materion amgylcheddol a diwylliannol sy'n bwysig i bobl ifanc yng Nghymru ac yn Libia. Fe weithiodd pawb ar brosiectau i'r wefan ar ddwy ran y gyfnewid, gan gynnwys caneuon a gwaith fideo, yn ogystal â thraethodau. Mae'r wefan ar fin cael ei lansio, a chewch wybod y cyfeiriad yn fuan.

Y bobl ifanc eu hunain oedd yn gyfrifol am drefnu llawer o'r ymweliad – profiad addysgol iawn ynddo'i hun! Er enghraifft, roedd Emily Hughes, 16 oed, o Fethesda, yn gyfrifol am y rhaglen yn y Gogledd. Toc cyn yr ymweliad, fe gerddodd Robin ar dro noddedig ar hyd llwybr Pedol Peris, sef chwech o gopäon uchaf dyffryn Llanberis gan gynnwys yr Wyddfa, er mwyn hel pres i'r rhaglen.

Yn anorfod, bu ambell gamddealltwriaeth, wrth i bobl ifanc o gefndiroedd mor wahanol ddod at ei gilydd ar gynllun a deimlai, weithiau, yn rhy uchelgeisiol. Ond yn wir, fe lwyddwyd i godi pontydd rhwng y ddwy wlad, ac fe fydd y cyfeillgarwch a fagwyd rhwng y Cymry ifanc a'u brodyr a chwiorydd o Libia yn parhau ar hyd eu hoes.

# Tirlun Tragwyddol – Parciau Cenedlaethol Cymru



'Tirlun Tragwyddol – Parciau Cenedlaethol Cymru', yw teitl arddangosfa gyffrous o weithiau newydd gan Rowan Huntley, yr artist tirwedd sy'n gweithio yng Nghaerdydd. Cafodd yr arddangosfa liwgar hon ei llwyfannu'n benodol er budd Cyngor y Parciau Cenedlaethol (CPC), yr elusen genedlaethol sy'n gweithio i warchod a gwella Parciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr ac ardaloedd sy'n haeddu statws Parc Cenedlaethol.

Caiff yr arddangosfa ei chynnal ym Mynydd Gwefru, Llanberis, o'r 5ed o Fedi. Mae'n darlunio prydferthwch ac amrywiaeth Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri. Mae 'tirlun tragwyddol' yn gasgliad trawiadol o beintiadau, o'r cyfarwydd i'r cudd. Mae mynyddoedd, rhaeadrau, rhostir, a chlogwyni môr i gyd yn cael lle amlwg, gyda gwybodaeth sy'n nodi pam mae'r Parciau Cenedlaethol yn bod a phwysigrwydd eu gwarchod.

Dywed Rowan Huntley: 'Mae addysg ar arwyddocâd dynodi Parc Cenedlaethol a chynnal y statws hwn yn arwain at well dealltwriaeth o'r gwaith sy'n glwm wrth warchod ein hamgylchedd naturiol i'r dyfodol. Rwy'n gobeithio y bydd "Tirlun Tragwyddol – Parciau Cenedlaethol Cymru" yn cyfrannu at yr addysg hon mewn modd arwyddocaol ac y bydd yn codi arian i gynorthwyo CPC i barhau ei waith allweddol bwysig.'

Meddai Syr Chris Bonington, Is-lywydd Oes Anrhydeddus Cyngor y Parciau Cenedlaethol,

'Mae'r arddangosfa hon yn ffordd gyffrous a newydd o dynnu sylw at bwysigrwydd ein Parciau Cenedlaethol a gwaith allweddol CPC. Mae "Tirlun Tragwyddol", sy'n hudo'r llygad, yn dathlu amrywiaeth a phrydferthwch Parciau Cenedlaethol Cymru ac mae'n dangos yn arkbennig yr angen mawr i barhau i warchod y rhain a mannau eraill tebyg yn y DU.'

Mae'r Arddangosfa ar agor o Medi 5–25 yng Nghanolfan Ymwelwyr y Mynydd Gwefru, Llanberis. Mae mynediad am ddim. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn www.rowanhuntley.co.uk <http://www.rowanhuntley.co.uk/>


J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU


Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
07050 357735

FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
*PORCHES*
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

# O SIAMBAR SELWYN

**Beth sy'n aros ar fideo'r cof yn dilyn fy mlwyddyn gyntaf fel Archdderwydd Cymru? dyna ofynnwyd i mi. Wel, yn fwyaf arbennig, y croeso a'r gefnogaeth a'r geiriau caredig a dderbyniais, ar y maes, trwy lythyr a negeseuon ar y ffôn. Syndod i mi hefyd oedd i amryw o ddieithriaid ddod ata i ar y maes a chydnabod eu bod yn derbyn *Eco'r Wyddfa* mewn mannau ledled Cymru.**

Wnes i rioed ddychmygu fod Archdderwydd yn cael cymaint o wahoddiadau i bethau mor amrywiol. Fe gefais wahoddiad un bore i odro buwch ar y maes. Gan i mi wneud safiad yn gynharach yn yr wythnos dros yr iaith Gymraeg (fel ag y mae yng nghyfansoddiad newydd yr Eisteddfod), ac i'r pennawd a roddid i'r stori yn y *Daily Post* fod yn gwbwl gamarweiniol, fe dderbyniais y gwahoddiad, ar yr amod (a 'nhafod yn fy moch) mai Welsh Black fyddai'r fuwch.

Wrth gwrs, fe ddangosais fy anwybodaeth, a chefais fy ngoleuo o'r ffaith nad ydi Welsh Blacks yn godro.

Chwith i mi oedd gorfod cyfeirio yn ystod y Cadeirio at absenoldeb fy hen gyfaill, Gwyn Tregarth, oherwydd gwaeledd. Gwyn, sydd wedi bod mor ffyddlon i'r Orsedd a'r Eisteddfod dros gyfnod hir o flynyddoedd, yn methu â dod i'r Ŵyl a gynhelid ar stepan ei ddrws. Bu Gwyn a minnau yn cyd-feirniadu mewn dwsinau o Steddfodau ledled Cymru, a buom yn cyd-deithio â'n gilydd i bellafoedd yr hen fyd 'ma.

Mae 'na sawl peth arall yn debygol o aros ar y cof. Hyfryd oedd cael teilyngdod yn y tair seremoni. Roeddwn yn adnabod y ddau Ddylan ers blynyddoedd. Yn wir, bu'r ddau yn cystadlu adrodd o dana'i lawer blwyddyn yn ôl. A Christine James oedd y ddysgwraig gynta i ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ond pinacl yr wythnos i mi oedd gorymdeithio i'r llwyfan ar brynhawn y cadeirio a gweld y llwyfan yn llawn o feirdd yn eu glas, gwyrdd a gwyn. Yn ôl y ffigwr a dderbyniwyd roedd yn record, ac rwy'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth yn fawr iawn. Yna cyrraedd y llwyfan a gweld fod y pafiliwn yn orlawn. Na, wna i byth angofio fy seremoni cadeirio gyntaf. Diolch hefyd i blant ysgolion cynradd Llanrug a Bontnewydd am ddawnsio mor rhagorol, ac i'w hyfforddwyr.

Dydd Sadwrn oedd yr unig ddiwrnod rhydd a gefais i grwydro'r maes, ymweld â stondinau a chynnal sgwrs â hwn ac arall. Yn wir, angofia i mo'r croeso a gefais gan gyfeillion Côr y Penrhyn. Amryw o'r aelodau yn tynnu coes ac yn estyn gwahoddiad i mi ymuno â hwy ar y llwyfan. Gwell oedd i mi wrthod, o barch i'r côr a'r gynulleidfa.

Oes, mae 'na sawl atgof yn sicr o aros ar fideo'r cof tra bydda i byw, ac rwy'n hynod falch i Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau fod yn Eisteddfod lwyddiannus ymhob ystyr.

Mae amryw wedi gofyn i mi gyhoeddi'r anerchiad a draddodais o'r Maen Llog ar fore Llun cynta'r Steddfod, a dyma fi'n ufuddhau.

* * *

Maddeuwch air bach personol gen i y bore 'ma – gair a fydd, o bosibl, yn air o deyrnged i'r cyn-chwarelwyr a chwyddodd gyfoeth gŵr yr aur a'r Faenol dros y canrifoedd.

Hogyn bach o Fethal ydw i. Mab i chwarelwr. 'Dwi ddim yn ysgolhaig. Ac mi fyddwch chi'n falch o glywed – tydw i ddim yn wleidydd chwaith. Ond mi rydw i'n eisteddfodwr – ac wedi bod yn eisteddfodwr drwy gydol fy oes.

Saith deg o flynyddoedd yn ôl i'r wythnos hon mi es i, yn llaw fy mam, yn blentyn saith mlwydd oed i fy Eisteddfod Genedlaethol gynta – i'r hen Bafiliwn yng Nghaernarfon. 1935 oedd hi, ac yno y gwelais i Orsedd y Beirdd am y tro cyntaf, ac mae gen i gof o weld Gwilym R. Jones o Dal-y-sarn yn cael ei goroni, a Gwyndaf, a ddaeth yn ddiweddarach yn Archdderwydd ac yn Gofiadur yr Orsedd, yn cael ei gadeirio.

Ac yma ar Barc y Faenol y bore 'ma, dwi'n ymfalchïo fy mod i yn eisteddfodwr ac yn fab i chwarelwr. Dwi'n berffaith sicr hefyd y byddai'r miloedd o gyn-chwarelwyr a fu'n naddu eu bara beunyddiol o grombil y graig, am gardod o gyflog, yn ymfalchïo ac yn llawenhau ein bod ni, fel cenedl, yn cynnal ein Gŵyl Genedlaethol yma ar lawnt y plas, ar dir y meistr a fu'n berchennog y chwarel.

A fedra i ddim llai na meddwl rhywsut y *byddan nhw* yma hefo ni, yn cyd-lawenhau drwy gydol yr wythnos.

Yn ei ragair i'r llyfr *Bargen Dinorwig*, gan y cyn-chwarelwr a'r Prif Lenor, Emyr Jones, mae y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones yn cydnabod ein dyled ni i froydd y chwareli, ac yn datgan bod y chwareli llechi wedi cyfrannu yn gyfoethocach nag unrhyw ddiwydiant arall i'n diwylliant llenyddol ni.

Fedra i ddim honni bod 'Nhad yn un o'r bechgyn deng-mlwydd gerddodd un ben bore tua Dinorwig 'na. Ac, fel unig blentyn, fedra i ddim honni chwaith iddo fagu cewri'r bryniau ar ei lin, ond yn sicr fe ganodd yn y côr a gadd y wobr. Aelod o gôr enwog Dilys Wynne oedd 'Nhad. Dyna sut y cyfeiriwyd at Gôr Caernarfon – côr a fyddai'n cystadlu (ac yn ennill) yn gyson mewn eisteddfodau ledled Cymru.

Mae ardal Eryri a'r Cyffiniau yn ardal sydd â thraddodiad eisteddfodol cyfoethog iddi. Fe gafodd y Brifwyl gartre yn y dalgylch hwn ddeunaw o weithiau. Ar ddechrau'r ganrif ddiwetha, roedd 'na steddfod ynghlwm â phob capel bron, a heddiw fe geir eisteddfodau lleol mewn nifer helaeth o bentrefi, yn ymestyn o Aberdaron i Ddyffryn Ogwen.

Yn wir, ganol y ganrif ddiwetha, fe gynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol yn un o gabanau Chwarel Dinorwig a neb llai na'r cyn-Archdderwydd Bryn Williams yn beirniadu'r cerddi ac yn gweinyddu y Seremoni Cadeirio. Ac fe welwyd un o enillwyr Eisteddfod y Caban yn gwisgo'r Fedal Rhyddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol y Fflint yn 1969. Ac yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd yn 1973, cyn-chwarelwr arall yn ennill y Fedal.

Dau gyn-chwarelwr, y ddau yn brif lenorion ein Prifwyl, a dau Emyr hefyd – Emyr Jones ac Emyr Roberts.

Ewch yn ôl i'r ganrif flaenorol – i Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl 1884. Yno fe enillodd Edward Foulkes, stiward gosod yn y chwarel, ar y Bryddest, ac fe enillodd côr o chwarelwyr Dinorwig – Côr Arvonic – y brif gystadleuaeth gorawl allan o 14 o gorau.

Ydi, mae dylanwad y diwydiant llechi wedi cyfrannu yn bur helaeth tuag at ein diwylliant ni, yn gerddorol ac yn llenyddol.

Roedd W. J. Gruffydd yn cydnabod y bydda fo yn fwy na balch o gael rhai o chwarelwyr diwylliedig y broydd hyn yn ei ddosbarthiadau yn y Brifysgol.

Mae'r eisteddfodau lleol yn parhau yn feithrinfa i'n pobol ifanc ni drwy Gymru gyfan, a dwi'n siŵr bod 'na eisteddfod leol o fewn deng milltir i gartre pob un ohonon ni. NI, aelodau'r Orsedd. Ni, aelodau'r Llys, a NINNAU, aelodau o Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol. Dwi'n gwybod bod rhai ohonoch chi'n ffyddlon i'r eisteddfodau lleol, OND, mae'n ddyletswydd ar BOB UN ohonom ni sy'n honni bod yn eisteddfodwyr i fynychu'r eisteddfodau lleol sydd o fewn cyrraedd i'n cartrefi ni.

Bellach, mae 'na fwlch yn wal y Faenol. Mae'r sgweiar wedi diflannu. Mae'r stad wedi chwalu ac mae'r chwarel yn Amgueddfa.

A heddiw dyma ni fel cenedl yn llifo i mewn drwy'r bwlch i gynnal ein Gŵyl Genedlaethol ar lawnt y plas.

* * *

Ga i gloi efo gair bach personol?

Thorrodd 'Nhad rioed air â'i feistr a chafodd o rioed wahoddiad i ddod yma ar dir y plas. Ond mi gafodd Mam wahoddiad i ddod yma i de parti. Parti i ddathlu buddugoliaeth enillydd cenedlaethol – *National Winner*.

Na, nid prifardd, na phrif lenor, ond buddugoliaeth Jerry M, un o geffylau'r Faenol, a oedd wedi ennill y Grand National yn Aintree.

Cyn diwedd yr wythnos, mi fydd 'na gannoedd o *National Winners* wedi troedio tir y Faenol 'ma – yn feirdd a chantorion, unigolion a phartïon a chorau. Pob un yn ymfalchïo eu bod nhw yn *National Winner*. A fydd 'na yr un ceffyl yn hawlio rhuban glas yn 'u mysg nhw.

Oes mae 'na fwlch yn wal y Faenol. Dowch drwyddo fo i fwynhau'r Ŵyl.

Diolch am eich gwrandawiad.


**Wavell Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!


## DIGWYDDIADAU YN Y GALERI

MEDI

18–24: Gŵyl Gerdd William Mathias mewn cydweithrediad â Cerdd Byw Nawr! a Cherddorfa Siambr Cymru

18: Cyngerdd Gala yn Galeri *Cerdd Byw Nawr!* Llyr Williams (Piano); Craig Ogden (gitâr); Jeremy Huw Williams (bariton); Nicola Phillips (ffliwt); Deian Rowlands (telyn); Celticana (pedwarawd llinynnol). Tocynnau: £10 (£7, £5). 7.30 yh.

21: Cyngerdd Meistr gyda Bernard Roberts ar y piano £10 oedolion; £6 plant. 7.30 yh.

23: Cerddorfa Siambr Cymru, Premier Cymru o *Requiem* Karl Jenkins am 7.30 yh.

TACHWEDD

26: Gweithdy Carolau Plygain dan ofal Arfon Gwilym.

RHAGHYSBYSIAD

16–23 EBRILL 2006: Gŵyl Delynau Ryngwladol Cymru, Caernarfon, yn Galeri. Cystadlaethau gyda dwy delyn yn wobr. Cyngherddau a digon o hwyl gydag artistiaid o Ffrainc, U.D.A. a Chymru.


# Yn y Glaw Cneifio'n Gloi!

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol cynhaliwyd Gŵyl Gneifio Gors Bach, Llanddeiniolen. Eleni roedd y gwobrau yn werth £800, a theclyn cneifio fel y brif wobr. Er y glaw, denwyd nifer o gystadleuwyr a gwylwyr, a llwyddwyd unwaith eto i gyplysu elfen gystadleuol a chymdeithasol y diwrnod.

Roedd cryn edrych ymlaen i weld a fuasai record Hywel Roberts o 22.1 eiliad am gneifio dafad yn cael ei thorri. Yn anffodus roedd y tywydd yn erbyn hyn, ac ni enillwyd y wobr fawr o £50. Fel arfer rhannwyd y cystadlu yn dair adran, y Dosbarth Iau (o ran profiad), y Dosbarth Hŷn (y profiadol) ac yna'r Dosbarth Agored, ac yna 'rhuban glas' y diwrnod olaf, sef yr amser cyflymaf i gneifio tri oen.

Mae cryn gystadlu yn y Dosbarth Iau, gan fod nifer o fechgyn 'lleol' yn yr adran yma. Fel gwobrau, wedi eu noddi gan Gwmni Amaethyddol Cox ac Idris Morris, Fachell, rhoddwyd 'cribau' a 'thorrwyr' cneifio. Yr enillydd eleni oedd John Williams (Cefn) mewn amser o 47.1 eiliad. Yn ail daeth Gerallt Jones ac yn drydydd Arwyn Griffiths.

Yn yr Adran Hŷn eto eleni daeth y cneifwyr o Seland Newydd i ymgiprys am y gwobrau ariannol o £100, £50 a £25. Enw cyfarwydd iawn i ni yn lleol oedd yn fuddugol unwaith eto, sef Sonny N'gaia, mewn amser o 39.9 eiliad. Un arall o Seland Newydd, Richie Mcguire (50.7) oedd yn ail a Meurig Roberts (53.1) yn drydydd. Diolch i gwmni cneifio Aaron Hughes, cwmni adloniant Mitre, a Desmond Hughes am eu nawdd.



*John Williams (a'r mab) gyda Thlws yr Adran Iau, a gwobr y 'Cneifiwr Lleol' gorau.*

Roedd cryn edrych ymlaen i'r Dosbarth Agored a Chymro yn trechu un o Seland Newydd o drwch blewyn, yn llythrennol. Aeth y wobr gyntaf o £200 i Hefin Jones (29.3); y £100 i Nigel Brown (29.4) a £50 i Steven Capstick o Loegr (33.4). Noddwyd y gystadleuaeth hon gan Gors Bach, Hughes Meats a R.L. Davies, Plant Hire.

Yn amlwg roedd balchder Nigel Brown wedi ei frifo, gan iddo gipio'r brif wobr yng nghystadleuaeth yr *'Handpiece'*. Cneifiodd dri o ŵyn mewn amser o 1 munud 54 eiliad.

Amser rhyfeddol o dan yr amgylchiadau. Diolch i gwmni Carlesburg am eu nawdd.

Diolch i Wil, Gors Bach, am ei drefniadau ac am gynnal hen grefft cefn gwlad. Hoffai Wil ddiolch i'r canlynol am eu cymorth a'u nawdd tuag at yr achlysur:

Norman Davies (Barnwr), Wil Arthur, Elwyn Fachell, Cwmni O. P. Evans, Carpedi Geraint Owen, Harri Owen (Loriau), R. G. Williams, Dunn ac Ellis (Cyfrifydd), North Wales, Fibreglass, Cafe Tŷ Mawr, M.W. Pritchard a'i Feibion, Jones & Whitehead, John Till, Regency Blinds a Chlwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon a'r Cylch.




*Wil Davies yn cyflwyno'r siec enillydd i Sonny N'gaia yn yr Adran Hŷn.*


Silver STAR

**GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

**Dylan Griffith**

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL**

**TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd



**Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833**

**Symudol: 07778 127394**

**HEFYD**

**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**




**Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce***

ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Gwesty

**Dolbadarn**

**LLANBERIS Ffôn: 870277**




**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff**

**H. E. HUGHES A'I FEIBION**

**Bwthyn Gadlys**

**LLANBERIS**

**FFôn: 870444**



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

# CHWILOTA



## PWY? PRYD? PAM? BLE? ... A PHEN-BLWYDD

**Cyn cychwyn ar y llith arferol, gair bach am yr wythnosau a aeth heibio, yn enwedig wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ar ein trothwy. Nid oedd yn bosibl i mi ymweld â'r eisteddfod bob diwrnod, ond cefais gyfle i fwynhau nifer o ddarlithoedd a sgyrsiau; llawer ohonynt yn ymwneud â phynciau hanesyddol.**



*O flaen Becws Cwm y Glo yn y 1950au. Pwy yw'r dynion? A beth yw'r achlysur?*

Llongyfarchiadau i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis am gynnal sesiynau yn y Caban ar wahanol agweddau o ddiwylliant y chwarelwr. Roedd y syniad ynddo'i hun yn un gwreiddiol, ac yn denu. Beth am ben-wythnos debyg yn yr Amgueddfa ei hun?

Hynod ddiddorol hefyd oedd gwrando ar Gwilym Trefor Jones yn traddodi ar 'Enwau Lleoedd Môn ac Arfon' ym Mhabell y Cymdeithasau, ond rhaid cyfaddef mai siomedig braidd oedd darlith flynyddol y Cymmrodorion a draddodwyd gan yr Athro Merfyn Jones o'r Brifysgol ym Mangor.

Yn naturiol dros wythnosau'r gwyliau, ychydig o amser a gafwyd i chwilota am ddeunydd newydd, ond daeth tri o ymholiadau sy'n gyfrifol am y pennawd i'r golofn y mis hwn.

**Teulu o Bontrug a Chaeathro**

Daw'r ymholiad cyntaf gan wraig o Lundain, a chof o ymweld â'r ardal yn blentyn pumlwydd oed cyn colli mam a'i gadael yn blentyn amddifad heb unrhyw gysylltiad pellach â'r fro.

Ganwyd Catherine Hughes Roberts ar 11eg o Fehefin 1908, yn ferch i Thomas a Sophia Roberts, Glanrafon Ifor, Pontrug. Ar ei thystysgrif geni, disgrifir y tad fel garddwr. Rywbryd wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, aeth Catherine i fyw i Lundain, priodi, a chael merch; ond bu farw yn 1954. Mae'r ferch bellach yn chwilio am deulu ei mam.

Roedd Thomas Roberts yn ŵr gweddw pan briododd Sophia Hughes o Dreffynnon, Caernarfon, yng nghapel Ebeneser o'r dref honno ym mis Ionawr 1905. Ei gyfeiriad bryd hynny oedd Bryngwna Ucha, Caeathro. Ei wraig gyntaf oedd Esther, ac yr oedd iddynt o leiaf saith o blant, sef Griffith John, Maggie Esther, Esther See, Tomie, Mary, Boby a David. (Dyna fel y cofnodir yr enwau ar Gyfrifiad 1901). Roedd y teulu yn byw yn Bryngwna Ucha, ond roedd y fam, Esther, eisoes wedi marw ers Medi 1899, a'i chladdu ym mynwent y capel. Yno hefyd y claddwyd Thomas Roberts ym mis Mai 1936, ac fe'i disgrifir unwaith eto fel garddwr. Ar y garreg fedd ceir cof am Ivor David Roberts, eu mab, a fu farw yng ngwasanaeth ei wlad, Gorffennaf 1944 yn 52 oed.

Ond beth ddigwyddodd i Sophia, ei ail wraig, a mam Catherine? Mae'n bosib fod dau frawd ieuengach wedi eu geni yn ddiweddarach hefyd, ond nid oes cofnod o'u henwau. Y cyfan a wyddom am Sophia oedd ei bod yn athrawes Ysgol Sul yng Nghaernarfon cyn ei phriodas, ond nid oes unrhyw sicrwydd i'r teulu fyw yng Nglanrafon Ifor, Pontrug ar ôl geni Catherine.

Mae'r lluniau yn dangos Catherine Hughes Roberts, ond does gan ei merch ddim syniad ble mae'r adeiladau. Oes unrhyw un o ddarllenwyr yr *Eco* â gwybodaeth am y teulu?

**Beth yw'r achlysur?**

Daw'r ail ymholiad oddi wrth Reg Chambers Jones, Hafod Wen, Caeathro, sy'n awdur nifer o lyfrau yn ymwneud â gogledd Cymru.

Mae wedi anfon llun o nifer o ddynion o'r tu allan i Fecws Cwm y Glo, rywbryd yn ystod y 1950'au. Yng nghanol y llun, mewn barclod wen, mae John Emlyn Watkins, y becar. Roedd ei frawd, Richard Watkins, hefyd yn gweithio yn y becws ar un cyfnod.

O astudio'r llun yn fanwl gellir gweld fod y gŵr ar ei eistedd ar y chwith yn dal copi o'r *News of the World* i fyny i'r camera. Nid yw'n bosibl gweld y pennawd, ond byddai'n ddiddorol cael gwybod a oes unrhyw arwyddocad iddo. Mae'n ymddangos fel pe bai'r dynion yn eistedd ar fainc. A fenthyciwyd hon o'r ysgol gyferbyn? Byddai'n ddiddorol cael gwybod pwy yw'r dynion a beth oedd yr achlysur.

Mae Reg hefyd yn awyddus i gael benthyg lluniau o chwarel Dinorwig ac ardal Llanberis er mwyn gwneud copïau ohonynt. Byddai'n hynod ddiolchgar pe bai unrhyw un sy'n fodlon benthyg lluniau iddo yn cysylltu ag ef.

**Casglu cen cerrig a lliwio**

Daw'r trydydd ymholiad ynglŷn â hen arferiad sydd wedi marw allan ers blynyddoedd – o bosibl. Ceir cyfeiriad ato gan Thomas Pennant pan grwydrodd o amgylch gogledd Cymru yn ystod y ddeunawfed ganrif. Dywed fel yr oedd trigolion gwahanol ardaloedd yn lliwio eu dilladau gyda lliw wedi ei wneud o wahanol fathau o gen cerrig (*lichen*). Mae John Evans hefyd yn ei gyfrol *Tour of North Wales* yn cyfeirio at yr un arfer yng nghyffiniau Cwm Brwynog. Y math o gen a ddefnyddid oedd cen du'r cerrig (*lichen omphalodes*) a math arall o'r enw *lichen parietina*.



*Catherine Hughes Roberts yn ferch ifanc – ond ble mae'r adeiladau tu cefn iddi?*



*Catherine Hughes Roberts gyda cheffyl a thrap o flaen addeilad sy'n ymddangos fel hen blasdy. Nid yw ei adeiladwaith yn debyg i unrhyw le ym mro'r Eco! Sylwch ar y cyrn simnai. All rhywun leoli'r addeilad?*

Credid fod yr arfer wedi hen ddiflannu nes i lyfr gael ei gyhoeddi yng nghanol y 1960'au – ie lai na deugain mlynedd yn ôl – yn honni fod yr arfer yn dal mewn grym. Yn ei llyfr *Lichens for Vegetable Dyeing*, mae'r awdur, Eileen Bolton yn dweud hyn:

*'Those lichens which gave a dye to boiling water are still used in the Highlands, in Ireland, and, until a few years ago, in Wales also. When Thomas Pennant made his tour of north Wales he found that the inhabitants dyed their home spun cloth with lichens. And recently,* ***in the same part of the country an old lady was still using these plants.****'*

Mae'n ymddangos fod yr hen wraig yn socian y cen *parietina* mewn piso (dyna'r unig ddull hwylus o gael ammonia) ac ychwanegu soda. Roedd hwn yn rhoi lliw piws tywyll. Does dim sôn pa fath o arogl oedd i'r dilledyn wrth ddefnyddio'r lliw! Yn yr un modd roedd y cen *omphalodes* yn rhoi lliw brown cyfoethog.

Tybed felly a oedd Eileen Bolton yn cyfeirio at ardal Cwm Brwynog yn y dyfyniad uchod? Ac os oedd, yna pwy oedd yr hen wraig a oedd yn parhau i liwio dillad gyda chen cerrig?

Oes rhywun all daflu goleuni ar y mater? Oes rhywun yn dal i liwio dillad gyda chen cerrig? Rhowch wybod.

**Mwy o Ddiarhebion a Dywediadau Meddygol**

Dyma fwy o ddywediadau a gasglwyd gan Miss Joan Davies o Gaernarfon.

- Na flysia laeth wedi pysgod.
- Bara heddiw, cig ddoe a chwrw y llynedd i bawb a gâr iechyd.
- Os mynni fynd yn glaf, golch dy ben a dos i gysgu.


I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr PORTHAETHWY**

Ffôn: **(01248) 714043**

neu **Caernarfon**

Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc



**Tiwtor Mathemateg**

Myfyriwr o'r ardal sy'n astudio at radd mathemateg ym Mhrifysgol Caergrawnt. Ychydig o brofiad dysgu. Addas ar gyfer y sawl sy'n paratoi at arholiadau TGAU, AS ac yn y blaen. Bodlon teithio pellter rhesymol. Ffoniwch Robin Crag ar

**01286 870548**

i drefnu amser cyfleus.

- A gartho ei ddannedd â blaen y gyllell, gall eu carthu cyn bo hir â'r carn.
- Cwsg da, hir oes.
- Ni thorro ei gythlwng ym Mai, cyfrifed ei hun gyda'r meirw.
- Dŵr oer a bara twym a wnant fol afiaethus.
- Tri dyn fydd hir oesog – hafotwr mynydd, aradrwr sychdir a physgotwr môr.
- Araf yn dyfod at fwyd, araf yn myned at waith.
- Cystal yfed o'r cawl a bwyta o'r cig.

**Troseddwr ar drên**

Pwy a phryd tybed y bu'r drosedd gyntaf gan un o drigolion y fro hon yn ymwneud â'r rheilffordd? Deuthum ar draws cofnod yn ddiweddar yn awgrymu mai gŵr o'r enw Hugh Rowlands o fferm Tŷ Mawr, Llanddeiniolen, biau'r anrhydedd amheus hwnnw!

Ar y 25ain o fis Chwefror 1851, cafodd y creadur anffodus ddirwy o ddeugain swllt (sef dwy bunt) a gorfu iddo dalu costau o naw swllt a chwecheiniog neu wynebu mis o garchar. A beth feddyliech chi roedd y drwgweithredwr hwn wedi ei gyflawni? Wel, a dyfynnu geiriad y llys: *'travelling in excess of his paid fare on the Chester and Holyhead railway on 24th of February.'*

Roedd y trên yn gyfrwng newydd o deithio bryd hynny, a'r awdurdodau'n llym ar unrhyw un oedd yn torri'r rheolau. Does ryfedd felly fod Hugh Rowlands wedi ei ddirwyo mor drwm am deithio yn bellach nac y caniatai ei docyn!

**Pen-blwydd**

Maddeuer i mi un nodyn bach personol cyn cloi'r golofn y mis hwn, ond mae 'Chwilota' yn dathlu pen-blwydd yn chwarter canrif. Ym mis Medi 1980 yr ymddangosodd y golofn gyntaf yn y gyfres. Ychydig a feddyliais y pryd hwnnw y byddai'r golofn yn dal i ddod o'r wasg chwarter canrif yn ddiweddarach. Gyda diolch i'r holl ddarllenwyr dros y blynyddoedd am ddangos cymaint o ddiddordeb yn hanes eu bro ac anfon cymaint o wybodaeth (ac ymholiadau) i mi. Ymlaen i'r chwarter canrif nesaf! A daliwch i anfon eich ymholiadau i dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn 01286 673515)

## Rygbi Iau yng Nghaernarfon

Fel mae'r haf yn dod i ben bydd y tymor newydd ar gyfer rygbi iau yn dechrau yng Nghaernarfon. Ar gyfer hogia ysgol uwchradd ym mlynyddoedd 7–11, bydd sesiynau ymarfer a hyfforddi yn cael eu cynnal rhwng 6 a 7.30 bob nos Fawrth o 30 Awst ymlaen. Wedyn o nos Wener, 7 Medi ymlaen, bydd cyfle i genod a hogia ym mlynyddoedd 1–6 ymuno rhwng 6 a 7.30. Croeso i aelodau hen a newydd.

## Aduniad Cyn-ddisgyblion Ysgol Sir Brynrefail 1900–56



*Aduniad o gyn-ddisgyblion o'r Ysgol Brynrefail wreiddiol, a drefnwyd yng Nghaban yr Amgueddfa Lechi ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Cafwyd atgofion o ddigwyddiadau yn yr ysgol o 1931 ymlaen!*

Cafodd y pump ohonom a drefnodd y cyfarfod ar bnawn Iau yr Eisteddfod eleni gymaint o wefr a boddhad wrth weld Y Caban yn orlawn, a hefyd rhai yn sefyll y tu allan, fel y carem ddiolch i'r cynifer oedd yno, o bell ac agos. Yn arbennig felly i'r cyn-ddisgybl o Lanrug gynt, a drafeiliodd o Awstralia bell. Cawsoch dipyn o golled os nad oeddech yn bresennol.

Roeddem yn falch iawn o weld Mrs I. L. James (Ms P. Hughes o Lanrwst i rai ohonom) yn bresennol, cyn-athrawes Gwyddor Tŷ a oedd yn cofio yn glir rai o ddigwyddiadau'r cyfnod hapus a staff yr ysgol. Roedd yn edrych yn debycach i 49 na 94 oed. Diolch i Goronwy, o Lanberis gynt, am ei gyfraniad diddorol am y dyddiau gynt, yn nechrau'r 30au yn yr ysgol.

Yn olaf, ond nid yn lleiaf, ein diolch a'n gwerthfawrogiad i Fwrdd Golygyddol y papur hwn am eich parodrwydd i gyhoeddi ein 'llith diweddaraf' o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn. Diolch o waelod calon.

I ni roedd y gwaith yn bleser i gyd.

IFAN WYN WILLIAMS
(Brynrefail gynt)

ADUNIAD. Oeddach chi yn cychwyn yn Ysgol Brynrefail yn 1972 neu 1973? Dewch i weld sut ma'ch cyfoedion wedi heneiddio! Byddwn yn cyfarfod yn Padarn Lake, Llanberis, nos Sadwrn, Medi 24 am 7.30 pm.


## Ffair Greiriau Ynys Môn

Maes Sioe Môn, (Mona ar yr A5) Sadwrn a Sul, 1 a 2 Hydref
10 a.m. – 5 p.m.
Arwerthwyr o bob rhan o Brydain yn gwerthu pob math o greiriau, hen bethau a pethau i'w casglu. Ffair Greiriau Bwysicaf Gogledd Cymru. • Parcio am ddim
Lluniaeth Ardderchog
Gwyn Davies
0161 226 8286/07966 387413


## SEFYDLIAD PRYDEINIG YGALON

Fel canlyniad i'r casglu o dŷ i dŷ yn ddiweddar casglwyd y swm o £1,634.97c rhwng yr ardaloedd a nodir er budd Sefydliad Prydeinig y Galon: Penisarwaun, Bethel, Llanddeiniolen, Llanrug, Llanberis, Waunfawr, Caeathro, Rhyd Ddu, Deiniolen, Dinorwig, Nant Peris a Chwm-y-glo. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd eleni eto, ac i'r rhai a fu'n casglu. Llwyddwyd i gasglu yng Nghaernarfon a'r Cylch y swm o £4,845.38c.

Gyda diolch

GLENYS GRIFFITHS
(Swyddog y Wasg)

## YN EISIAU AR FRYS

Gŵr neu wraig i fod yn gyfrifol am fwndelu'r Eco.

Mae hon yn swydd allweddol i sicrhau llwyddiant a pharhad Eco'r Wyddfa.

Golyga un noson y mis mewn gwahanol ganolfannau yn y fro i ddidoli a bwndelu copïau o'r Eco ar gyfer gwahanol bentrefi. Mae'n waith pleserus a hynod gymdeithasol. Os am wirfoddoli a fyddwch cystal â chysylltu â'r Cadeirydd ar (01286) 871274 neu unrhyw swyddog neu ohebydd a nodir yng ngholofn 1, tudalen 2. Erfyniwn am eich cefnogaeth.


## R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB *Fastracs* a *trailers* 16 tunnell *diggers* bychain ac *excavators* 360° newydda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu *footings*
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620


## UN FUNUD FACH

**GWEITHIWR IEUENCTID**

Yn gynharach eleni gwahoddwyd cynrychiolwyr eglwysi a mudiadau Cristnogol ym mro'r Eco at ei gilydd i drafod y syniad o benodi gweithiwr ieuenctid i'w helpu i gyflwyno'r Efengyl i bobl ifanc yr ardal. Roedd pawb a ddaeth i'r cyfarfod cyntaf hwnnw yn frwd iawn dros y syniad, a than arweiniad y Parchg Dafydd Lloyd Hughes aed ati i drafod yr holl fater yn fanylach. Cafwyd cymorth gwerthfawr gan y Parchg Bryn Williams, Coleg y Bala, wrth geisio sefydlu union bwrpas a gwerth y fath weithiwr.

Y gobaith yw y bydd modd cael gweithiwr ieuenctid i wasanaethu eglwysi'r ardal o bob enwad. Ceir gweithwyr o'r fath mewn ardaloedd ac eglwysi eraill, ac y mae eu gwaith yn amrywio o'r naill le i'r llall wrth reswm. Hyderwn y byddai ein gweithiwr ieuenctid yn gallu ein helpu i gyflwyno'r newyddion da am Iesu Grist i bobl ifanc yr ardal hon. Dod â phobl ifanc at Grist fyddai her fawr a phriod waith y gweithiwr.

Gobeithiwn allu sicrhau cefnogaeth o du'r gwahanol enwadau ac o bosibl o ffynonellau eraill. Lluniwyd holiadur a fydd yn cael ei ddosbarthu trwy'r eglwysi yn ystod mis Medi er mwyn gweld pa gefnogaeth sydd i'r bwriad o gael gweithiwr. Rhagwelwn y bydd ymateb cadarnhaol i'r holiadur yn help i ni sicrhau'r nawdd ariannol angenrheidiol.

Caiff yr Holiadur ei ddosbarthu yn ystod mis Medi a gobeithiwn y bydd pawb a gaiff gopi yn ei lenwi. Byddem yn hynod o falch petae pobl ifanc a phlant yn llenwi rhannau perthnasol o'r holiadur hefyd. Cawn gyfle eto gobeithio i ddweud rhagor am y cynllun, ond am y tro, carem eich annog i lenwi a dychwelyd yr holiadur cyn gynted ag y cewch gopi ohono.

Os na fyddwch wedi cael copi o'r Holiadur erbyn diwedd mis Medi ac y carech gael un cysylltwch â'r Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Llain Gwyn, 14 Brynrhos, Rhosbodrual, Caernarfon neu'r Parchg John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis (01286 872390).

JOHN PRITCHARD


Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

## PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED. Pob dymuniad da i'r rhai sy'n cychwyn yn Ysgol Brynrefail a'r rhai fydd yn cychwyn yn y Dosbarth Meithrin.

PWYLLGOR NEUADD. Cynhelir Taith Gerdded yng ngofal Mr. Larsen nos Wener Medi'r $9^{fed}$ i gychwyn o'r Neuadd Gymuned am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Ceir canlyniadau enillwyr Clwb Cant Gorffennaf, Awst a Medi yn y rhifyn nesaf.

SIOEAU. Llongyfarchiadau i bawb o'r pentref a fu'n llwyddiannus eto eleni gyda'u hanifeiliaid a'u hadar yn yr amrywiol sioeau.

YSGOL SUL BOSRA

TRIP – Cafwyd diwrnod arbennig o ddifyr a'r haul yn tywynnu'n braf yn Cheshire Oaks ac yna yn y ffair yn Y Rhyl. Diolch i Elizabeth Jones ac Ann Patterson am wneud y trefniadau.

Fe fwynhaodd nifer o'r aelodau b'nawn hynod o ddifyr yn Sbri yr Ysgol Sul ar Orffennaf $10^{fed}$. Diolchir i'r trefnwyr a'r cludwyr.

Ein llongyfarchiadau i Mererid Mair, Gweithwraig Ieuenctid a Datblygu Eglwysig, ar fod yn fuddugol ar Gyfansoddi Emyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gobeithio y cawn ei chwmni yn fuan wedi Cymanfa lwyddiannus yn Ebeneser Deiniolen yn ei gofal. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul Medi $11^{eg}$. Croeso cynnes i aelodau newydd

APÊL Y CAPEL – RHEDEG DROS BOSRA. Fel aelod gwerthfawrogol o Ysgol Sul a Chapel Bosra bydd Eurgain Haf yn rhedeg Hanner Marathon Caerdydd ar ddydd Sul, Hydref $9^{fed}$ i godi arian at adnewyddu yr adeilad presennol. Mae ffurflenni noddi ar gael gan aelodau o'r pwyllgor. Gobeithio y gwnaiff y cyn-aelodau a'r aelodau presennol ei chefnogi.

CYDYMDEIMWN yn ddwys iawn â Paula, Hen Ysgol Tanycoed, a'r teulu oll yn eu colled fawr o golli mam garedig a gofalus, Iola Evans, Llanrug. Ein cydymdeimlad hefyd â Dewi Jones, Bryntirion gynt, a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem o golli eu merch, Manon Mererid, a hithau ond yn ddeunaw oed. Cydymdeimlwn hefyd yn ddwys iawn â Carole Porter a'r teulu ar golli tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl, sef Huw Griffiths o Gaernarfon.

DIOLCH. Dymuna Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Dymuna teulu Carrog, Waun ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur priodas eu merch, Iola, yn Gretna Green yn ddiweddar.

Dymuna Rene Morris, 2, Llys y Gwynt ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion gwerthfawr a'r holl alwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar.

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Bu cyfraniad y pentref hwn yn fawr iawn tuag at yr Yr Eisteddfod lwyddiannus hon. Ein targed oedd £2,000 ond fe lwyddwyd i gasglu £3,300 mewn byr amser. Diolchir i bawb am eu haelioni.

Cymerodd nifer fawr o'r pentref ran flaenllaw yn ystod wythnos yr Eisteddfod, gan gynnwys yr Archdderwydd Selwyn Iolen; Heulwen Evans fel un o hyfforddwyr y Ddawns Flodau yn y prif seremonïau ac Arwel Jones yn canu Gweddi'r Orsedd yn seremoni'r Fedal Rhyddiaith.

Roedd nifer o aelodau Corau Caernarfon a'r Penrhyn yn y canu yn y Cyngerdd mawr agoriadol y nos Wener gyntaf, a nifer hefyd yng Nghôr yr Eisteddfod. Cymerodd rhai ran yng nghyflwyniad Merched y Wawr a braf oedd gweld a chlywed y grŵp 'Brigyn' yn diddori ar y Maes.

Llongyfarchiadau i Cenin a Judith Harding, aelodau o grŵp Dawnswyr Caernarfon a enillodd Dlws Cymdeithas Ddawnsio Gwerin Cymru. Llongyfarchiadau i Judith hefyd ar ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth o'r enw 'GALW' i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn dawns.

Llongyfarchiadau i Marina, aelod o driawd 'Cynefin', a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Cerdd Dant i driawdau. Llongyfarchiadau hefyd i John Eifion, arweinydd Côr Meibion y Brythoniaid, ar fod yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Corau Mawr. Bu eraill yn brysur yn stiwardio, yn paratoi lluniaeth ysgafn yng nghefn y Pafiliwn ac eraill yn gweithio mewn gwahanol stondinau. Bu hon yn Eisteddfod i'w chofio i bawb!

CLWB YR HENOED. Enillydd Pêl Bonws oedd rhif 8, sef Carole Porter. Llongyfarchiadau.

CROESO. Ganwyd Elin Haf, merch fach Susan a Stephen, 18 Bryn Tirion, chwaer fach i Dylan, Bryn a Ceri, wyres i Len ac Ann Parry, Rhos Wian. Pob bendith i chi fel teulu.

GWELLA. Ein cofion at bawb sy'n sâl yn y pentref, a chofion arbennig at Ralph Rosser, 5, Llys y Gwynt wedi triniaeth yn yr Ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU i bawb fu'n llwyddiannus yn yr amrywiol arholiadau, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

CARNIFAL Y PENTREF. Dyma'r gweithgareddau:

**Medi $10^{fed}$**
Y Carnifal a Mabolgampau.

**Medi $12^{fed}$**
Bingo yn neuadd yr Eglwys am 7 o'r gloch.

**Medi $13^{eg}$**
Gyrfa Chwist am 7.30 yn neuadd yr Eglwys.

**Medi $16^{eg}$**
Helfa Drysor yn cychwyn o Neuadd yr Eglwys am 6 o'r gloch ac yn diweddu mewn gwesty am fwyd.

**Medi $22^{ain}$**
Noson cwis yn nhafarn Glyn Twrog am 9 o'r gloch.

**Medi $23^{ain}$**
Disgo i'r plant am 7 o'r gloch yn neuadd yr Eglwys.

CYNHELIR CYMANFA GANU yn Eglwys Santes Helen rhywbryd ym mis Hydref.

PLYGU'R ECO. Plygir y rhifyn nesaf o'r Eco yma ym Mhenisarwaun yn neuadd yr Eglwys o 5.30 ymlaen Nos Iau, Medi 29ain. TAER ERFYNNIR AM DDWYLO NEWYDD I YSGAFNHAU BAICH Y FFYDDLONIAID.


ARVONIA COACH TOURISM cpt

• Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
• Rhaglen Tripiau Dyddiol.
• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
• Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava
MOT
Retail Motor Industry Federation
website: www.a-v-w.co.uk
Shell HELIX MOTOR OILS
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car
AVW YSTAD CIBYN CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul

QUALITY HOTEL
Quality Hotel Llanberis
(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis (01286) 870253

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580



PRIODAS. Ddydd Sadwrn Mehefin 4ydd, yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, priodwyd Meurig Jones, Greuor Villa, a Gaynor Hycz, Coed Hyfryd, Ffordd Bangor, Bethesda gan y Cofrestrydd Mrs Menna Williams, ym mhresenoldeb 95 o westeion. Y gwas priodas oedd Stanley Huws, Yr Wyddgrug, a'r brif forwyn oedd Pat Pycroft, Penisarwaun. Hefyd yn cynorthwyo roedd tair nith a dau nai ieuengaf Meurig – Lowri, Gwenllian, Siwan, Dewi a Guto Sion. Cyflwynwyd detholiad o farddoniaeth bwrpasol yn ystod y seremoni gan Dan Jones, Sabia Begum ac Aled Jones Griffith. Roedd y gerddoriaeth berfformiwyd yn cynnwys darnau gan Beethoven, Clarke, Delibes a Handel. Gyda'r nos cafwyd dathliad pellach yng nghwmni 150 o wahoddedigion.

Dymuna Meurig a Gaynor ddiolch am yr holl gymorth ymlaen llaw ynglŷn â threfniadau'r briodas, am yr anrhegion hael iawn ac am y deisen briodas arbennig a wnaed gan Margaret Jones, 3 Bro Elidir, Dinorwig, ac i'r Ffotograffydd, Elwyn Roberts, Bethesda. Treuliwyd y mis mêl yn Nhwrci a bydd y pâr priod yn cartrefu yng Nghoed Hyfryd, Ffordd Bangor, Bethesda.

NOSON CWIS. Trefnwyd noson gymdeithasol a chwis nos Lun, Gorffennaf 11eg yn y Caban yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri gan Geraint George a Pat Jones. Roedd elw y gweithgareddau yn mynd at Gronfa Apêl Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau. Profodd yn noson lwyddiannus ymhob ystyr. Mae ein diolch gwresocaf i Geraint George am drefnu'r Cwis ac i Pat Jones, Anita Long a Carol Houston am drefnu'r lluniaeth a'r raffl ar y noson. Gwnaed elw o £178.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Iau, Gorffennaf 28ain, aeth yr aelodau ar eu Trip Dirgel blynyddol. Y gyrchfan eleni oedd Gardd Bodnant yn Nyffryn Conwy lle cafwyd cyfle i ymweld â'r gweithdai crefftau cyn mynd ymlaen i westy Waterloo, Betws y Coed, am bryd o fwyd.

Nos Iau Medi 1af bydd aelodau'r gangen yn mynychu cyngerdd ar wahoddiad Cangen Menai o Sefydliad y Merched.

Ar Fedi 22ain, bydd dathliad arbennig sef pen-blwydd y gangen yn 90 oed. Trefnwyd cinio dathlu yn y Caban yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri a'r siaradwr gwadd fydd Mr Rol Williams, Waunfawr.

COFION. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Nia Walker, Cytir, yn dilyn cael ei tharo yn wael tra ar ei gwyliau gyda'r teulu yn Nhwrci. Wedi gorfod treulio cyfnod mewn Uned Gofal Dwys mewn ysbyty yno, da yw deall ei bod gartref erbyn hyn. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS. Nos Iau, Mehefin 9fed, dan lywyddiaeth Mrs Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, cyfarfu aelodau'r Gymdeithas yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri. Yn dilyn myfyrdod gan y llywydd, cyflwynodd y gŵr gwadd, sef Mr Geraint George, Sŵn yr Engan. 'Tirlun a Thirwedd' oedd testun ei sgwrs addysgiadol a diddorol. Bu'n foddion i greu ymwybyddiaeth i'r aelodau o gyfoeth daearegol Cymru. Dangoswyd sleidiau pwrpasol o dirwedd a thirlun ein gwlad ynghyd â nifer o enghreifftiau daearegol a golygfeydd o Wlad yr Ia ac Awstria. Ategwyd diolch cynnes y llywydd gan nifer o'r aelodau. Paratowyd y lluniaeth i ddilyn gan Bethan Lambert a Dwynwen Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Medi 8fed yn y Ganolfan pryd y disgwylir Mr Rol Williams, Waunfawr, i sgwrsio ar y testun 'Galifantio'.

GWASANAETH OLAF AR SAFLE'R CAPEL. Y Parch John Owen, Bethesda, oedd y cennad yn yr oedfa hanesyddol hon nos Sul, Gorffennaf 24ain. Yn dilyn cenadwri bwrpasol gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd i'r gynulleidfa gryno a oedd yn bresennol.

O Fedi'r 4ydd ymlaen bydd yr aelodau yn addoli yn yr Ystafell Gymunedol yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri. OEDFAON MEDI

4 Parch Ddr Alwyn Roberts, Tregarth am 10.00
11 Parch Trefor Jones, Caernarfon am 5.30
18 Parch Gwynfor Williams, Caernarfon am 5.30
25 Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon am 5.30
Gweinyddir y Cymun

# DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

PEN-BLWYDD YN GANT OED.
Yr wyf yn siŵr ein bod fel ardal yn falch o ddeall fod Mrs Maggie Griffith, 1 Maes Eilian gynt, yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 2 Medi. Mae Mrs Griffith yn cartrefu hefo'i hunig ferch, Jane, yn Rhydychen. I fyny at eleni byddai yn dod ar ei gwyliau at Mary Lloyd i Hafod Olau, Deiniolen (merch ei chwaer). Tra yr oedd Capel MC Dinorwig yn agored byddai yn bresennol yn yr oedfa bob pnawn Sul am rhyw chwe wythnos o'r gwyliau, ac hefyd yn cyfrannu at yr achos.

Mae yn edrych ymlaen at yr *Eco* bob mis, ac o'i dderbyn, yn ei ddarllen o glawr i glawr.

Mrs Griffith, ga i ar ran yr hen ardal yma yn Ninorwig ddymuno Pen-blwydd Hapus Iawn ichwi yn gant oed, a gobeithio y cewch nerth ac iechyd i fwynhau y diwrnod mawr. Ein cofion at Jane a'r teulu hefyd. Pob hwyl a bendith ichwi ar y dydd mawr.

CLWB ORWIG. Y wraig wadd y ng nghlwb Orwig ddiwedd Mehefin oedd Mrs Jacqueline Jones o Ddeiniolen. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddi a daeth ag amrywiaeth eang o enghreifftiau o'r gwahanol waith crefft a wnaed ganddi – o frodwaith, peeintiadau, crochenwaith, gemwaith arian a chardiau at bob achlysur. Diolchwyd iddi gany llywydd, John Cantrell, a chyflwynodd fasged o flodau iddi. Derbyniwyd casgliad o bumceiniogau'r aelodau tuag at yr Ambiwlans Awyr. Y cyfanswm a gasglwyd oedd 1091 darn. Rhoddwyd y te gan Betty Lloyd Roberts, Kathleen Davies a Betty Roberts. Enillwyr y raffl oedd John Cantrell, Dennis Glass ac Andrew Griffith, ac enillwyd y fasged o ffrwythau a llysiau a oedd yn rhodd gan Glenys a Martin o'r Veg Van, gan Betty Roberts.

Ni chynhaliwyd cyfarfodydd yn ystod mis Awst.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU. Mae'r Eisteddfod yn rhan o hanes bellach, ond er hynny yn Eisteddfod a fydd yn aros mewn cof am gryn amser. Yn ardal Dinorwig fe gasglwyd y swm o £740. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag ati; diolch am bob rhodd, bach neu fawr. Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd gan blant yr ardal sydd erbyn hyn wedi cartrefu mewn ardaloedd eraill, yr oedd eu cyfraniadau yn dra derbyniol gan mai, gwaetha'r modd, ychydig ohonom ni'r Cymry sydd ar ôl yma erbyn hyn. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu o gymorth inni i gyrraedd y nod, a'i basio.

PEN-BLWYDD YN 90 OED. Cyn y bydd y rhifyn yma o'r *Eco* wedi dod o'r wasg, fe fydd Mr Andrew Griffith, Tan y Bwlch, wedi dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Fe fu'r diwrnod mawr ar 27 Awst. Dymunwn i chi ben-blwydd hapus iawn a gobeithio y cewch iechyd i fwynhau'r achlysur. Pob bendith ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel, Andrew.

DIOLCH. Dymuna Mrs Megan Morris, Minffordd, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch i Eurwyn a Marsli am y parti a drefnwyd iddi yn y Ganolfan. Fe fu iddi fwynhau y cyfan. Diolch o galon i bawb.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Mr Derek Williams, Bron Eilian, yn Ysbyty Gwynedd ers peth amser. Gobeithio y cawn ei weld adref wedi gwella yn reit fuan. Brysia wella, Derek.

Hefyd, yr ydym yn deall for Mrs Laura Wiliams, Tan y Fron, wedi syrthio adref a'i bod ar hyn o bryd yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli. Gobeithio y byddwch chi'n gwella yn lled fuan ac y cawn eich gweld gartref unwaith eto. Brysiwch wella, Mrs Williams.

DYMUNIADAU GORAU I BLANT YR ARDAL. Gan fod gwyliau'r ysgol yn tynnu tua'r terfyn, gawn ni ddymuno'n dda i'r plant fydd yn gadael yr ysgol ac yn mynd i'r colegau neu i unrhyw swydd arall, ac wrth gwrs i'r rhai fydd yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau i'r rhai sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau a phob lwc i holl blant yr ardal i'r dyfodol.

# CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275



PRIODAS. Dydd Sadwrn, 11 Mehefin, yng Nghapel y Tabernacl priodwyd Carys, merch Gwilym a Margaret Williams, Bryn, â Rodney, mab Elizabeth Morris, y Bontnewydd a Robin Morris, Caernarfon. Gwasanaethpwyd gan y Parch Gwynfor Williams a'r organydd oedd Mr Gareth Wyn Jones.

Y gweision priodas oedd Eifion Roberts, cefnder y priodfab a Darren Wyn Williams, ffrind, a'r morynion oedd Sian Wyn Jones, Claire Williams, ffrindiau y briodferch, a Sian Elin Williams, ei chyfnither. Y tywyswyr oedd Terry a Keith Williams, brodyr y briodferch a David Morris, brawd y priodfab. Roedd y wledd briodas yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Treuliwyd y mis mêl yn Las Vegas. Byddant yn ymgartrefu yn 7 Stryd Newydd. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc.

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 5 Gorffennaf, bu farw Ieuan Wyn Rowlands, Penrhos, 20 Stryd Dinorwig, Caernarfon yn 43 oed, wedi cystudd hir a blin y brwydrodd yn ddewr, tawel a dirwgnach yn ei erbyn. Bu'n gweithio i Gyngor Gwynedd am dros ugain mlynedd a'i brif ddiddordeb oedd pêl-droed.

Bu ei angladd ar 11 Gorffennaf yn Eglwys Llanbeblig, Caernarfon, a rhoddwyd ef i orffwys ym Mynwent Llanrug. Y cludwyr oedd Nigel Rowlands, Colin Rowlands, Jonathan Rowlands, Jamie Rowlands, Neil Rowlands a Mike Jones. Gwasanaethwyd gan y Parch Jeffrey Hughes.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Gill, ei fab bach, Sion, ei lys-blant, Jason a Sophie, ei fam, Mrs Peggy Rowlands, ei frodyr, David a John a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

CAPEL Y TABERNACL. Dydd Sul, 19 Mehefin, bedyddiwyd Glyn ac Erin, mab a merch fach Colin a Bethan Jones, 16 Glanmoelyn, Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams gyda Bethan o Lanberis wrth yr organ.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau a dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol.

DIOLCH. Dymuna Arwyn Jones, Isfryn, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ar ôl ei ddamwain, ac ar ôl dod adref.

DIOLCH. Dymuna Carys a Rodney, 7 Stryd Newydd, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

DIOLCH. Dymuna Gill, Sion, Jason, Sophie a Mrs Peggy Rowlands a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Ieuan. Diolch i'r Parch Jeffrey Hughes am ei wasanaeth; i Mr Gwilym Jones a'i Fab, ac yn arbennig i feddygon a nyrsus Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal tyner yn ystod ei waeledd. Diolch yn fawr.

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Dafydd Price a'r teulu, Padarn View, ddiolch o galon am yr ymholiadau, cardiau, anrhegion a galwdau ffôn tra'n bod yn cael llawdriniaeth yn yr ysbyty ym Manceinion ac yna yn Ysbyty Gwynedd.

DYMUNA Gwerfyl Jones, 9 Maes Padarn, ddiolch i'w chymdogion, teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

DYMUNA Ralph a Nancy Jones, Taliesin, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am y cyfarchion, cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar ddathlu eu Priodas Aur ar 1 Awst.

DIOLCH. Dymuna Mrs Jane Jones, Peris View, ddiolch i bawb a anfonodd gardiau ac anrhegion iddi ar ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar. Dyma'r penillion a dderbyniodd gan Mr John Hughes, Tan-y-Clogwyn, Llanberis. Hefyd hoffai ddiolch i bawb am eu caredigrwydd pan fu yn yr ysbyty.

Mae'r gwanwyn wedi dyfod,
Cyn hir fe ddaw yr haf
A gwên yr heulwen dirion,
Y dyddiau hirion, braf;
A lliwia natur fro a bryn,
A'r holl gysgodion yn y llyn.

Daeth heddiw ddydd arbennig
Yn hanes un mor glên,
Cyfeirio wnaf yn awrhon
At yr anwylaf Jên;
Yr un dyneraf fu erioed,
Mae Jên Jôs heddiw'n nawdeg oed.

Ry'm ninnau oll yn llawen,
Ry'm yma'n cynnal gwledd
A gawn i ddathlu'r diwrnod,
Gwnawn hyn mewn hwyl a hedd;
Dymuno wnawn, ar lawen dant,
Y caiff y feinir gyrraedd cant.

LLONGYFARCHIADAU i Idwal Lloyd Williams, Llanrug ar ennill B.Sc. (Anrhydedd) 2.1 mewn Gwyddoniaeth Daearol ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl; ac i Huw O'Donnell ar ennill M.Sc. mewn Rheolaeth Eiddo Masnachol, hefyd ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl, oddi wrth Nain (Elsa).

DYMUNA Mrs Beth Owen ddiolch i'r gymuned am eu cyfraniad tuag at yr Wyl Flodau a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Padarn.

TAITH GERDDED. Diolch o galon i bawb ddaru fy nghefnogi ar y daith gerdded i godi arian tuag at y salwch N.A. ac Epilepsi. Mae Gordon a Gill Parry yn gwerthfawrogi y cyfanswm o £477 ac yn diolch yn fawr iawn am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth. Anne Parry Jones, Perthi, Bryngwyn, Llanrug.

CÔR MEIBION. Prif weithgaredd y Côr yn ddiweddar oedd cynnal cyngerdd ar nos Sul, 10 Gorffennaf, yn Eglwys Santes Fair, Betws-y-coed, gyda Elin Mai Jones yn unawdwraig.

Bu'r Côr yn diddanu cynulleidfa o Americanwyr a gwesteion yn y Caban ar Faes yr Eisteddfod i ddathlu dadorchuddio cofeb newydd i nodi cysylltiad yr Arlywydd Americanaidd, Thomas Jefferson, â'r ardal.

Bydd ymarferiadau'r Côr yn ailgychwyn am 7.30 nos Lun, 5 Medi. Croeso mawr i unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r Côr.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Allison Watson (Pitts gynt) ar ennill gradd BA mewn Astudiaethau Plentyndod. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd a'r ffrindiau.

# CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

PROFEDIGAETH. Dymuna Susan, Emyr, Ifan a Mared, Pant Hyfryd, Ceunant, ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Karon Williams, Fuches Las, Ceunant, ar basio ei gradd 7 piano gyda rhagoriaeth.

FFONAU TALU. Daeth llythyr oddi wrth Alun Ffred Jones AC i sylw Cyngor Cymuned Llanrug ynglŷn â'r ymgynghoriad sy'n digwydd parthed dyfodol ffonau talu yn Etholaeth Caernarfon. Bu BT yn monitro'r ffonau talu yn yr etholaeth a daeth llythyr oddi wrthynt yn egluro mai ychydig iawn o ddefnydd a wneir o'r ffôn gyhoeddus yn y Ceunant, ac maent yn bwriadu newid y ffôn o ddefnyddio arian i ddefnyddio cerdyn. Maent wedi gofyn am ymateb i'r cynllun cyn diwedd Medi. Os oes gan unrhyw un o drigolion ardal y Ceunant farn ar y mater, cysylltwch â Mrs Mair Lloyd Hughes, Clerc y Cyngor, Glasgoed, Llanrug (677263) cyn 25 Medi os gwelwch yn dda.

## Wythnos Gelfyddydau Gwynedd 2005

**Hydref 24–30, 2005**

Yn dilyn llwyddiant Wythnos Gelfyddydau Gwynedd a gynhaliwyd y llynedd, bwriedir cynnal ail Wythnos Gelfyddydau yn ystod wythnos hanner tymor ym mis Hydref eleni. Cafodd dros hanner cant o ddigwyddiadau artistig eu llwyfannu y llynedd mewn gwahanol leoliadau trwy Wynedd gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o gyfoeth artistig y sir.

Trefnir Wythnos Gelfyddydau Gwynedd gan Fforwm Celfyddydau Gwynedd. Sefydlwyd y Fforwm yn Chwefror 2002 trwy gyd-ymdrechion unigolion a sefydliadau sydd yn gysylltiedig â'r celfyddydau, er mwyn creu gwell amgylchfyd i'r celfyddydau o fewn y sir. Mae'n gorff annibynnol sy'n cynnwys 15 o aelodau etholedig ar y pwyllgor, ac yn cynrychioli gwahanol feysydd artistig yng Ngwynedd, yn cynnwys y maes gwirfoddol a phroffesiynol.

Mae Fforwm Celfyddydau Gwynedd yn gwahodd unrhyw ymarferwyr o fyd y celfyddydau sydd â diddordeb, trefnwyr digwyddiadau, lleoliadau celfyddydau ayb i gymryd rhan yn Wythnos Gelfyddydau gwynedd trwy drefnu digwyddiadau megis arddangosfeydd celf, gweithdai, cyngherddau, gigs, stiwdios agored, perfformiadau, darlleniadau o farddoniaeth ayb.

Cysylltwch ag ysgrifennydd y Fforwm am ragor o wybodaeth a ffurflen gais.

Gwawr Wyn Roberts
Ysgrifennydd Fforwm
Celfyddydau Gwynedd
d/o Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON LL55 1SH
Ffôn: (01286) 679721
Facs: (01286) 677347
e.bost: GwawrR@gwynedd.gov.uk

# NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

GŴYL FFAIR NANT – Cystadlu

**Coginio**
Torth Wen; Teisen wedi ei haddurno; Bara Brith; Fflan ffrwythau (sbwng); Teisen blât (unrhyw ffrwyth); Teisen 'Marble'; Taffi Triog.

**Jam**
Pot jam unrhyw ffrwyth; Pot o gaws lemwn.

**Gwin a Gwirodydd**
Gwin gwyn neu goch; 'Sloe gin' neu unrhyw wirod â blas arbennig; Cwrw.

**Perlysiau:** Clwstwr o berlysiau.

**Ffotograffiaeth**
Llun a dynnwyd ar lan y môr; Ffotograff o Nant Peris (gan gofio am gerdyn Nadolig y flwyddyn nesaf)

**Celf**
Darlun o blentyn mewn pensil; Arlunio neu baentio unrhyw gyfrwng dim mwy na 20"x20"

**Arddangosfa Flodau**
Arddangosfa flodau mewn tebot; Trefniant gwyrdd.

**Gwau:** Dol neu anifail

**Crosio:** Unrhyw eitem i fabi

**Clytwaith a Chwiltio**
Bag unrhyw faint; Clustog; Cwilt bychan i fabi neu blentyn.

**Gwnio:** Anifail wedi ei stwffio.

**Brodio:**
Cerdyn cyfarch yn dangos pwyth croes.

**Decoupage:**
Llun neu gerdyn; Eitem yn dangos unrhyw grefft nodwydd neu beiriant gwnio yn unig.

**Gwaith coed:**
Unrhyw eitem o waith coed.

**PLANT**

**Coginio**
Dan 8: 6 cacen roc
8–12: Cylch o fara brau
12–16: Pizza; Cacennau mafon

**Crefft**
Dan 8: Plât papur wedi ei haddurno
8–12: Het bapur ar gyfer parti
12–16: Collage gan ddefnyddio reis neu basta
Dan 8: Dyn wedi ei wneud o daten
8–12: Anifail wedi ei wneud allan o ffrwythau
12–16: Gardd fechan; Trefniant o flodau mewn cwpan a soser

**Arlunio**
Dan 8: Fi fy hun
8–12: Mam yn y gegin
12–16: Powlen ffrwythau neu lysiau

**Gwnio**
'Humpty dumpty' wedi ei stwffio

**Ffotograffiaeth**
Dan 8: Fi ar lan y môr
8–12: Mam a Dad
12–16: Brawd / Chwaer

**Limrigau**
Cwblhewch y limrigau canlynol *(Complete the following limericks)*

'Rôl parti go wyllt yn Nant Ffynnon…

Wrth hel defaid yn barod i'w cneifio…

Mewn lei-bai wrth ymyl y pentra…

*A funny thing happened whilst shearing…*

*In Nant there's a fair each September…*

*When Brian woke up one fine morning…*

Yr holl waith celf i **Glanrafon** neu i'r **Eglwys** ar ôl **2.00 o'r gloch, dydd Sadwrn, 10 Medi**;

Popeth ffres: e.e. cacennau a gwinoedd, i **Dy'n Llan** erbyn **12.00 dydd Gwener, 16 Medi;**

**Blodau** (pawb) i'r **Eglwys** erbyn **12.00 dydd Gwener, 16 Medi**.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Gwenda Roberts (872177)

Dylid danfon y limrigau i Anne Cumberton yn **Ty'n Llan** erbyn **dydd Sul, 11 Medi.**

*All limericks should be taken to Anne Cumberton at **Ty'n Llan** by **Sunday, 11 September**.*

GWYL FFAIR NANT 2005. Er mwyn sicrhau fod pawb yn cyrraedd yn ôl yn ddiogel cyn iddi dywyllu, cynhaliwyd helfa drysor y ffair ar b'nawn Sul, 10 Gorffennaf, ar ddiwrnod hyfryd o haf! Daeth y daith o gwmpas y fro i ben ym Mharc Glynllifon gyda chinio Dydd Sul blasus – diolch i staff y Gath Ddu. Diolch hefyd i Jennifer a Bethan am drefnu'r daith ac i Mims, John, Dafydd a Sian am ennill – pob hwyl ar drefnu taith y flwyddyn nesa'!

Bydd Gŵyl eleni yn cychwyn ar ddydd Sadwrn, 10 Medi gyda'r Wyl Flodau yn Eglwys Sant Peris. Bydd modd ichi ddanfon eich harddangosfeydd blodau i'r eglwys rhwng 10 a 2y.h o'r gloch. Lleisiau'r Mignedd a Stephanie Welsby fydd yn arwain y Gymanfa Ganu yng Nghapel Rehoboth am 7 o'r gloch. Bydd cwis Bwyd a Diod yn Ty'n Llan am 9.00 yh ar nos Fawrth y 13eg – cyfle i ennill gwobrau drwy ateb cwestiynau ac i flasu digon o fwyd a diod! Cynhelir cystadleuaeth pŵl ar nos Fercher y 14eg o Fedi am 7.00 yh – cofiwch roi eich enw ar y daflen yn Ty'n Llan er mwyn cael chwarae. Wedyn bydd Cystadleuaeth Carioci ar y Nos Wener i gychwyn am 6.30 y.h i blant ac am 8.30 yh i oedolion. Bydd y Ffair ei hun yn cychwyn am 1.30 yh ar y Dydd Sadwrn – dewch yn llu i fwynhau amrywiaeth o gemau hwyliog a llu o stondinau. Dewch yn llu!

Gyda'r nos fe fydd noson o ddarllen y limerigau i gyd am 9.00 o'r gloch yn Ty'n Llan.

LLONGYFARCHIADAU i Chantel Jones, Stephanie Welsby a Bleddyn Jones ar eu llwyddiant yn y Lefel A a phob lwc iddynt yn y dyfodol. Llongyfarchiadau hefyd i Alwyn Roberts, Glanrafon ar ennill gradd anrhydedd mewn Astudiaethau Busnes a Thechnoleg Gwybodaeth, a phob lwc efo'i gwrs ymarfer dysgu fis Medi.

LLONGYFARCHIADAU i Manon Pritchard, Fron, am basio ei Gradd 3 piano gydag anrhydedd.

Ga i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniais ar fy mhen-blwydd mawr yn 30! A diolch am wneud y diwrnod yn un cofiadwy! Llinos x

# DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)



Ar ol misoedd o ymarfer, mae dwy chwaer o Ddeiniolen yn cymryd rhan yn y Great North Run.

Bydd Wendy James ac Yvonne Regan yn rhedeg y cwrs 13 milltir ar ddydd Sul, Medi 18, yn Newcastle. Maent yn gobeithio codi swm sylweddol o arian i helpu Sefydliad y Galon i gario mlaen gyda'u gwaith ymchwil i achosion a thriniaeth afiechyd y galon ymysg dynion, merched a phlant.

Mae'r achos yn berthnasol i'r ddwy ar ôl y profiad o golli eu tad dros ugain mlynedd yn ôl. Bu Cledwyn Jones farw wedi trawiad ar y galon, ac maent am redeg y ras er cof amdano.

Os os gennych ddiddordeb noddi Wendy neu Yvonne, cysylltwch ag un o'r ddwy ar (01286) 870802 neu (01286) 872114.

LLUN

DIOLCH. Dymuna chwiorydd y diweddar Orwig Lloyd Jones ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl. Diolch i'r Parchedig Deiniol Morgan am ei wasanaeth. Diolch hefyd i'r ymgymerwr, Dylan Griffith, Tros-y-waen, Penisarwaun am ei wasanaeth urddasol a gofalus.

HOFFAI Mrs Joan Parry, 3 Tai Gwyrfai, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn ei phrofedigaeth o golli chwaer annwyl mor sydyn. Diolch am yr holl gardiau a rhoddion. Fe gasglwyd £600 tuag at blant bach lleol sydd yn dioddef o gancr a liwcemia. Hefyd diolch i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth yn y tŷ ac yn y fynwent.

DIOLCH. Dymuna Linda (merch) Anna, Jennie a Ciss, Gorlan, ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli mam a chwaer annwyl iawn, sef Mrs Ellen Lewis (Nel Gorlan). Diolch am y cardiau a rhoddion o £500 sydd wedi ei drosglwyddo i Gartref Nyrsio Cerrig yr Afon, Y Felinheli, ple y bu Nel am bron i naw mlynedd a lle y cafodd bob gofal a charedigrwydd gan y staff i gyd. Diolch o galon iddynt. Mae y Metron wedi pwrcasu dwy fatres bwrpasol ar gyfer y cleifion yno. Dyna oedd dymuniad Linda. Llawer o ddiolch i chwi oll.

DYMUNA Betty, Ann, Jane Ceridwen a theulu y ddiweddar Gwen Lloyd Jones ym Mhentraeth, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch arbennig i'r hen gymdogion annwyl, Brenda a Iorwerth, a Marian a Nia a'r teulu, a'r hen ffrindiau a ddaeth o bell ffordd i'r angladd. Diolch hefyd am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd tuag at National Osteoporosis Society. Cedri Foulkes, Hafod Oleu.

YSGOL FEITHRIN. Ar ddiwedd tymor yr haf cafwyd parti yn yr Ysgol Feithrin i ddathlu diwedd y flwyddyn ysgol ac i roi ffarwel i'r disgyblion fydd yn mynychu Ysgol Gwaun Gynfi drwy'r dydd ym mis Medi eleni. Gwisgodd y plant (a'r staff) mewn gwisg ffansi a darparwyd gwledd o fwyd blasus. Cafwyd adloniant gan bypedwr o Gwmni Cortyn, a oedd yn ddigri iawn. Roedd y plant wrth eu bodd!

Yn ystod tymor yr haf bu'r plant yn brysur iawn yn dysgu cân newydd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Faenol. Roedd Ysgol Feithrin Deiniolen yn canu'r gân 'Fuoch chi 'rioed yn morio?' ar y fore Sul cynta'r Eisteddfod ym mherfformiad mawreddog 'Y Tymhorau' gan y Mudiad Ysgolion Meithrin. Roedd y pasiant yma yn cynnwys dros 250 o blant o tua 20 o ysgolion meithrin Gwynedd. Da iawn chi, blantos, a rhywbeth bythgofiadwy i'r ysgol a'r rhieni fod yn falch iawn ohono.

Mae'r Ysgol Feithrin wedi ffarwelio gydag un aelod o staff ym mis Gorffennaf, sef Glenys Jones, y Cymhorthydd. Dymuna'r Arweinydd, y Pwyllgor, y rhieni a'r plant, wrth gwrs, ddiolch o galon am ei gwaith caled a'r hwyl yn ei chwmni.

Edrychwn ymlaen at groesawu criw newydd o blant a'u rhieni ym mis Medi, a dymunwn y gorau i'r plant hŷn fydd yn mynd i Ysgol Gwaun Gynfi drwy'r dydd ac i'r rhai fydd yn cychwyn yr ysgol gynradd yn y bore am y tro cyntaf.

Dymunwn ddiolch i'r rheini am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad drwy'r flwyddyn ac i'ch atgoffa bod y tymor newydd yn dechrau ar 5 Medi.



LLONGYFARCHIADAU. Mae Catrin Elen Jones o Gwelfynydd, Clwt y Bont yn 8 oed ac wedi bod yn ymarfer gymnasteg ers yn 5 oed. Mae'n aelod o glwb Gymnasteg Eryri a chlwb Arfon. Yn cystadlu dan 10 oed fe lwyddodd hyd yma i gael pum medal eleni – tair efydd, un arian a dwy aur.

Daeth yn bumed mewn cystadleuaeth genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Mai eleni. Pob lwc iddi a'r clwb i'r dyfodol.

PWYSIG IAWN. Mae angen dosbarthwr i *Eco'r Wyddfa*. Golyga hyn fynd, unwaith y mis, i un o bentrefi'r ardal (ar nos Iau) i nôl y pentwr o'r *Eco* sydd ar gyfer Deiniolen, ac yna ei ddosbarthu i ryw 10 o bobl sydd wedyn yn eu rhannu yn eu cylch eu hunain. **DIM OND UNWAITH Y MIS, COFIWCH!**

Rydym yn obeithiol iawn y cawn ymateb i'r cais yma ar fyrder, neu ni fydd yn bosibl i'r Eco gyrraedd Deiniolen na Dinorwig.

Ar Fedi'r cyntaf y mae'r gwaith yn dechrau a hynny o dan ofal plygwyr Dinorwig.

COFION A CHYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cofion at bawb yn y pentref sydd heb fod yn dda. Brysiwch wella.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir i deuluoedd yn y pentref a gollodd anwyliaid yn ystod yr haf. Ein cofion cynnes atoch i gyd.

FFAIR PASG YSGOL GWAUN GYNFI. Cynhaliwyd ffair basg yn yr ysgol a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn paratoi a threfnu'r stondinau ar y noson. Casglwyd £542.49. Hefyd hoffwn ddiolch i Cath am ei chyfraniad gyda stondin Body Shop.

Enillwyr y raffl oedd: Tedi ci: Mrs Warrington; Sebonau: Sophie; Ci Sosij: Helen; *Aftershave*: Mrs Griffiths; Jigsô a siocledi: Daniel; Ffrâm: Susan; Gwin: Harri; Gwin: Helen; Siocledi: Sophia; *Aftershave*: Amanda; Siocledi: Cai; Port: Anti Gwen; Gwin: Liza; Siocledi: Amanda; Port: Yvonne; *Aftershave*: Susan; Basged o ddeunydd Body Shop: Dawn.

Enwi'r Tedi: Christian Belini; Sgwâr Cant: Mrs Griffiths.

DYMUNAF ddiolch i fy nheulu am gysondeb eu cefnogaeth ac i fy nghymdogion a'm cyfeillion o bell ac agos am yr holl gydymdeimlad a dderbyniais ar farwolaeth fy Mam, Annie Catherine Davies, 7 Hafod Olau, a fu farw ar 1 Awst. Diolch hefyd i'r Parch Ganon Idris Thomas am ei wasanaeth; i Keith, Gerallt, Ian, Gwynfryn, Martin ac Alwyn am gludo Mam i'w gorffwys; i Dylan Griffith am ei waith trylwyr ac i bawb a roddodd mor hael tuag at Feddygfeydd Deiniolen a Llanberis. Elis Evan Davies.

LLONGYFARCHIADAU cynnes iawn i dri o bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri. Bu Lindsay Vaughan yn fuddugol ar yr Unawd Cerdd Dant, a bu Emyr Wyn Gibson ac Elfed Morgan Morris yn llwyddiannus ar yr Unawd allan o Sioe Gerdd, gydag Emyr yn gyntaf ac Elfed yn ail. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

MERCHED Y WAWR. Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor nos Lun, 19 Medi yn Tŷ Elidir. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor nos Lun, 26 Medi, yn Festri Ebeneser. Cawn ein diddanu gan John Eifion a'r teulu. Croeso cynnes i bawb.


**Glanhau eich Cartref?**



*Gwasanaeth ym mro'r Eco*
*Safon uchel am bris rhesymol*

Cysylltwch â:
Janet ar 07766 880650
neu
Sharon ar 07748 626607

**CARPEDI GERAINT OWEN**

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

***Fframia*** **Gwasanaeth Fframio Lluniau**

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
**Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:**
**IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW**
**KEITH BOWEN • ROB PIERCY**
**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

**Y Bistro**
**LLANBERIS**
**Ffôn 871278**
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

# Briwsion Byd Natur

**Dafydd Guto**

## Llawnder neu Wacter?

Ie, llawnder, meddaf i, ran gwirionedd tystiola'th! Chwe deg a phedair mlynedd yn ôl, yn yr *Herald Cymraeg*, Ionawr 13eg, 1941 t.3 colofn 4, ceir GLAN RHYDDALLT, a oedd yn dal cyswllt â Llanrug, yn mynd ati i dd'eud yn ei golofn wsnosol *na fydd wiwer byth yn torri cnau gweigion ond sut mae hi'n gwybod fod cneuen yn llawn?* Mae'n dyfalu a oedd y wiwer yn cymryd pwysau'r cnau i ystyria'th, gan ei bod yn medru dethol y cnau, sy'n llawn bwyd, a gada'l y rhai *coeg*, (gweigion), heb eu cyffwrdd o gwbwl. Gwnaed arbrawf, ebe GLAN RHYDDALLT, pryd y gosodwyd cnau llawn, a farciwyd, a'u cymysgu â rhai gweigion, ar silff ffenestr. Ar bob cynnig, mi roedd y *wiwer* yn dewis y cnau aeddfed, a oedd yn cynnwys bwyd i'r anifa'l. Yn hyn o beth, breintiwyd y *wiwer* hefo'r ddawn gynhenid i fedru arogli, hynny ydy, mi roedd y creadur yn medru arogli cnewyllyn y gneuen drwy'r plisgyn caled tena.

Mi fydd *gwiwerod* yn storio eu bwydydd. Y mae ganddynt eu cuddfana ac yn ystod y tymhora casglu bwyd y maent yn claddu'r cnau, a'r moch coed, o'r golwg yn y pridd. A ydynt yn cofio ble cuddiwyd y pantrioedd dan sylw? Go brin, ond pan fo hi'n galed eu byd arnynt, a bwyd yn brin, mi fyddant yn dibynnu ar eu synnwyr arogli ac yn canfod tameidia i'w b'yta, a hynny drwy ganfod, a defnyddio, storfeydd bwyd, a adawyd gan wiwerod er'ill! Hyd yn oed wedyn, os na ddarganfyddir manau claddu bwydydd, bydd y wiwer yn ad-dalu byd Natur hefo'r gymwynas fwya un o ada'l ffrwytha a hada yn y pridd, sy maes o law yn egino ac yn tyfu'n goed neu blanhigion. Os r'wbath, fel 'na'n union mae Natur yn bodoli ac yn gofalu am drannoeth ac yfory, gan fod y coed a'r planhigion yn eu tro'n gofalu am gynhal'iath sawl aderyn, anifail, a phryfetyn.

A daw hyn â nyni at y rhyfeddod ola un, sef nad creadur a gyfyngwyd i frigau'r coed ydy'r wiwer. Nage wir, gan amla mi fydd y wiwer yn disgyn i'r ddaear ac yn treulio llawer o'i hamser ar y llawr, yn cribino'r ddaear am ddiferyn i'w yfed, a bwyd i'w f'yta Bydd wrth ei bodd yn taro ar hadau, a chnau yn eu llawnder. Nid gwag mo'i bywyd! Yn hytrach, mae'i bodola'th yn dibynnu ar lawnder y cynefin a fodola o'i chwmpas. Fodd bynnag, pan fo perygl, bydd y wiwer yn dringo, a hynny ar ddiawch o wib i ben ucha canghenna'r coed. Yn dra aml, boed berygl, neu beidio, encilia i'r fangre mwya diogel bosib, hynny ydy unwa'th y caiff r'wbeth at ei dant. Yn sicr, yr hyn â'i bodlona fwya ydy bwyd!

Ie, un ddarbodus ydy'r wiwer. Ni wastraffa amser ar geisio agor cnau gweigion! Mae'n ddigon call i w'bod be ydy be, a pha fodd i gwrdd â'i anghenion.



# Ar Ben Arall y Lein

Mae'r tymor eleni yn brysur ddiflanu heb i'r enwair gael llawer o ddefnydd, bron i dri mis heb iddi fwrw unrhyw swm sylweddol, felly wrth reswm isel, cynnes a llawn o chwyn yw'r afonydd. Un peth ynghanol hyn i gyd yw fod y dŵr heb newid i liw fel ag y mae wedi bod yn gwneud ers dros ddeg mlynedd, oherwydd problemau gyda gwaith carthffos Llanberis. Mae hyn i gyd yn dangos fod y gwaith yno yn gweithio o'r diwedd.

Taith faith a diflas yw'r broses wedi bod o gael rhai o'r awdurdodau i weithredu ar beth oedd pawb gyda synnwyr cyffredin yn gallu ei weld a'i ddehongli. Ond dyna ni o'r diwedd, os buasai rhywun yn gallu gwerthu potelad o synnwyr cyffredin, yna buasai yn filiwnydd ymhen dim.

I rai sy'n cofio, bu sychder cyffelyb i eleni yn 1976, a phan ddaeth y glaw o'r diwedd ar ddechrau Medi, fe gafwyd pysgota arbennig. Dau ddiwrnod ar ôl pen y lli fe gefais i dri eog braf ar ôl awr o sgota. 29 mlynedd yn ddiweddarach, ac rwy'n dal i ddisgwyl diwrnod 'run fath. Eleni, efallai, a mae'n dechrau bwrw hefyd!

Un man yn ddiweddar sydd wedi bod yn denu'r 'sgotwrs yw Llyn Dywarchen. Mae criw y ddeorfa eleni wedi magu stoc arbennig, gyda ychydig ychwanegol bob rhyw bythefnos o'r Waen, angenrheidiol wrth gwrs i gadw diddordeb pan fo dim arall yn gwneud. Mae safon brithyll yr enfys sy'n cael eu rhoi i mewn nawr yn tua tri phwys yr un. Bydd yn rhaid bwcio i gael lle yno cyn bo hir.

Drwy ystyried y tywydd poeth a'r afonydd isel, mae achlysuron wedi bod ar y Seiont a'r Llyfni o lygredd, arllwyso anghyfreithlon o wahanol fannau yw'r broblem. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ddefnyddio llawer o arian – ein arian ni wrth gwrs – yn hysbysebu eu bod yn gweithredu'n llym ar rai sy'n llygru ein hafonydd. Mae'r lle yn frith o sloganau gwahanol fudiadau sy'n cael eu rhedeg drwy gymorth ariannol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Afonydd Glân yw popeth, y frwydyr yn erbyn llygru yn cael ei hennill. Os gwelwch chi lygredd, ffoniwch ar unwaith rif 0800 80 70 60. Dyna wnes i ddwy waith, a chan fod dim wedi digwydd ar ôl y galwadau yma, pan welais beth difrifol iawn arall, gyrrais e-bost. Rydych yn gwybod beth yw'r atab – dim. Neu does neb yn dweud wrth y clwb. Oes ydyw o rannu gywbodaeth i fod – sgwn i! Mae mwy o wybodaeth ar gael am beth sy'n digwydd yn Llundain ac ar hyd y byd na sydd am ein milltir sgwâr ein hun.

Gan fy mod ar fy mocs sebon ,rhaid cael dweud, os ffoniwch y rhif uchod o ffôn symudol, yna anghofiwch am rhoi gwybodaeth yn y Gymraeg. Saesneg yn unig, mae'n ddrwg gennyf.

Huw Price Hughes

# Cwrs Arloesol yn dod i fro'r Eco

Ers mis Ebrill eleni mae Coleg Menai wedi bod yn cydweithio gyda Chyngor yr Henoed, BT a Chlwb Orwig i gynnal cwrs arloesol o fewn y gymuned. Bwriad y cwrs yw hyfforddi pensiynwyr i ddefnyddio cyfrifiadur, gyda'r pwyslais ar ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r rhyngrwyd i gyfathrebu, bancio a siopa. Erbyn cwblhau'r cwrs gobeithir y bydd aelodau Clwb Orwig yn gallu cyfathrebu drwy e-bost (ee er mwyn gofyn cyngor meddygfa leol, gwneud apwyntiadau, gofyn cyngor gan y gwasanaethau cymdeithasol ac, wrth gwrs, i hel ambell stori), siopa a bancio drwy gyfrwng y dechnoleg newydd.

Mae aelodau'r grŵp wedi cael benthyg gliniaduron newydd sbon dros gyfnod y cwrs ac maent wedi cael gosod llinell ffôn bandeang yn y tŷ. Cynhelir y cwrs yn Tŷ Elidir, Deiniolen. Yn ystod tymor y Nadolig paratoir darllediadau uniongyrchol i gartrefi aelodau'r grŵp o'r stiwdio fideo gynadleddau yng nghanolfan y Maes, Caernarfon.

Mae'r cwrs yn rhan o ddarpariaeth prosiect Ehangu, sydd wedi ei ariannu gan arian Amcan 1. Prif ddiben y prosiect hwn yw defnyddio technoleg i ddarparu cyfleoedd dysgu ar gyfer unigolion sydd, am wahanol resymau, yn cael eu heithrio'n gymdeithasol neu'n ddaearyddol.

Cafwyd cefnogaeth a chyngor gan Geraint Strello, Rheolwr Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru BT. Noddwyd y 'webcams' a'r llwybryddion gan BT Cymru.

Yn ôl Alun Davies, un o'r tiwtoriaid, mae'r grŵp yn gwneud cynnydd arbennig, gyda phob un ohonynt yn dangos ymroddiad a pharodrwydd i ddysgu. Mae dipyn o hwyl i'w gael hefo nhw hefyd!

Dyma sydd gan Ellen Wyn i'w ddweud am y cwrs!

**Clwb Orwig a Chyfrifiaduron**

*(i'w chanu ar dôn 'Sosban Fach')*

Mae 'na rai o bensiynwyr Clwb Orwig
Wedi cael cyfrifiadur – un bob un
Ma nhw'n mynd yn y tacsi neu'r Volvo,
A'u bag ar eu cefnau, bob p'nawn Llun.
Mynd y maent i ddysgu sut
I drin y laptop a sgwennu nghynt,
A wedyn i ddysgu syrffio'r wê.

Mae staff Coleg Menai'n amyneddgar
Efo ni, sydd wedi mynd yn hen,
Ac mae Sharon, Alun, Marc a Medwyn,
Pob un ohonynt yn rhai clên.
Rhowch glic fan hyn, a chlic fan draw,
I'r ll'goden fach sydd dan eich llaw,
I chithau gael hefyd syrffio'r wê.

Mae'r tiwtors am fynd a ni i G'narfon
Ar y maes, lle mae'r castell a Lloyd George,
A Medwyn am fynd a ni dros 'rabar
A bydd Alun yn dilyn yn y Porsche.
Wel, rhowch glic fan hyn, a chlic fan draw,
Cliciwch, cliciwch yn ddidaw,
Hwre! Fe gawn ninnau syrffio'r wê.

Am fwy o fanylion neu os oes gan eich clwb chi ddiddordeb mewn dilyn yr un math o gwrs cysylltwch â Medwyn Williams – (01286) 673450.


Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON
GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

CESTYLL BOWNSIO
ar gyfer pob achlysur
MÔN MENAI
Holwch am ein atyniad arall ar gyfer plant ifanc
Ffôn: Philip (01248) 714068
07800 964713

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

EISTEDDFOD. Mae trefniadau'r Eisteddfod Bentref mewn llaw erbyn hyn a bydd cyfle i sicrhau copi o'r Rhestr Testunau mewn Noson Goffi i'w chynnal yn y Neuadd Goffa ar nos Wener, 9 Medi. Os oes unrhyw un yn barod i gynorthwyo gyda hyfforddi partïon ar gyfer yr Eisteddfod rhowch wybod i un o'r Swyddogion, naill ai yn y Noson Goffi neu ynghynt. Gwerthfgawrogir unrhyw rodd ariannol tuag at gostau'r Eisteddfod a chydnabyddir hyn yn Rhaglen y Dydd.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Siôn Garth Owen, Tŷ'r Ysgol, ar lwyddo, gyda theilyngdod, mewn arholiad chwythu Corn Gradd 6, yn ddiweddar.

CLWB BRO BETHEL. Bydd y cyfarfod cyntaf o'r tymor yma prynhawn Mawrth nesaf, 6 Medi am 2.00 o'r gloch yn Festri Bethel.Y gŵr gwadd fydd y Cynghorydd Huw P. Hughes. Dewch draw am sgwrs a phaned. Bydd croeso yn eich disgwyl.

DIOLCH. Dymuna Myrna a Cyril Owen, Camlan, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, cymdogion a ffrindiau oll am y cardiau, blodau ac anrhegion dderbyniwyd ganddynt ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Huw Llywelyn ddiolch yn gynnes am yr holl gardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ddiweddar.

DYMUNA Nerys Wyn Owen, Wern Las, tra yn yr ysbyty ym Mangor, ddiolch i ffrindiau, cymdogion a theulu am eu caredigrwydd.

MERCHED Y WAWR. Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Fercher, 14 Medi yn neuadd yr ysgol am 7.30 yh, yng nghwmni Lleisiau'r Gweunydd. Croeso'n ôl i'r holl aelodau ac estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau newydd.

CLWB 100 Y CLWB PÊL-DROED. Enillwyr gwobrau Gorffennaf oedd: £100: Dafydd Williams (54); £50: Andy Gibson (8); £25: Dylan Roberts, Llangefni (16) ac Idris Morris (24).

Diolch i bawb am eu cefnogaeth

YMWELWYR ARBENNIG. Ym 1961, pan yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, dechreuodd Ellen Ellis, Drws y Coed, Rhoslan, ysgrifennu at ferch yn Rushville, Indiana, UDA. Merch fferm Talymignedd, Nantlle oedd Ellen a'r ferch yr oedd yn ysgrifennu ati hefyd yn byw mewn ardal amaethyddol yn America.

44 o flynyddoedd yn ddiweddarach, a'r llythyru wedi parhau'n ddi-dor ac wedi datblygu i alwadau ffôn a chyfnewid e-byst yn ogystal, cafodd y ddwy gyfarfod am y tro cyntaf pan ddaeth y ferch o Indiana a'i gŵr draw i Gymru i dreulio amser efo Ellen a'i theulu.

Athrawes yw Margaret McCarty a Clay, ei gŵr, yn rheolwr gwasanaethau ategol. Wrth gwrs, ar ôl llythyru'n rheolaidd am cyhyd roedd pawb yn adnabod ei gilydd yn dda iawn a bu hen siarad! Roedd yr ymweliad yn gyfle i Margaret a Clay gael crwydro'r ardal a chyfarfod â theulu a ffrindiau yr oeddynt wedi clywed cymaint amdanynt dros y blynyddoedd.

Cafwyd cyfle hefyd i fynd draw i Iwerddon, o lle hannai cyndeidiau Clay. Yn ogystal ymwelwyd â'r eisteddfod a chael blas ar ein gŵyl genedlaethol.

Anodd oedd ffarwelio ar ôl cael cyfarfod o'r diwedd ond gobeithio y daw cyfle i gyfarfod eto cyn bo hir iawn – un peth sy'n sicr fydd hi ddim yn 44 mynedd arall cyn y cyfarfod nesaf!

LLWYDDIANT YN Y FAENOL. Cafodd Huw Llywelyn, o Fethel, achos i ddathlu yn ddiweddar, gan iddo gipio nifer o wobrwyon yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Facool.

Daeth Huw yn gyntaf ar y gân gelf, yn gyntaf ar yr unawd Gymraeg a hefyd yn gyntaf ar yr unawd operatig. Daeth yn ail yng nghystadleuaeth Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts, gan ennill Rhodd Gwobr Roland Jones, sef £2,000. Yn goron ar y cyfan enillodd Wobr Goffa Osborne Roberts, sef y Rhuban Glas i gantorion dan 25 oed.

Ar ddechrau'r flwyddyn hon cafedd Huw ysgoloriaeth i Goleg Cerdd Brenhinol Llundain, a bydd yn cychwyn ar gwrs opera yn Ysgol Opera Ryngwladol Britten y coleg ym mis Medi dan hyfforddiant Russell Smythe.


Graddiodd Huw o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru lle cafodd hyfforddiant gan Miriam Bowen ac Angela Livinstone. Wedi cwblhau yno hefyd gwrs Diploma mewn Astudiaethau Llais gyda chlod uchel, bu am dros flwyddyn yn teithio led-led Pydain fel aelod o Gorws Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

'Daeth fy nhaith gyda'r Cwmni Opera i ben ganol fis Gorffennaf,' meddai, 'a rhyw bythefnos go lew oedd gen i i roi trefn iawn ar gystadlaethau'r Eisteddfod. Hoffwn ddiolch i Annette Bryn Parri am wneud lle i mi yn ei hamserlen brysur cyn yr Eisteddfed, i ymarfer a rhoi sglein ar bethau.'

Yn ystod ei flynyddoedd olaf yn Ysgol Brynrefail y datblygodd diddordeb Huw mewn canu.

'Cefais bob cefnogaeth gan fy athro cerdd yno, Gareth Huws Jones,' meddai. Roeddwn i hefyd yn ffodus o gael athro canu da fel Nigel Shaw yn y cyfnod hwnnw cyn mynd i'r coleg.'

Ystyria Huw ei lwyddiant yn y Faenol, yn ogystal â chanu yn Neuadd Albert, Llundain, yn ddiweddar fel rhai o uchelfannau ei yrfa hyd yma.



I Huw Llywelyn

I'r Brifwyl, ar ei brifiant – yn addfwyn
O aeddfed rhoed rhamant;
A naws llif nodau fel nant
Addewid gaeth ei haeddiant.

CLWB 200 Y NEUADD GOFFA. Enillwyr Ebrill oedd: £50: Carys Roberts, 2 Penrhos (98); £25: Judith Jones, Gwelfor (137); £10: Susan Owen, Llys Gwynedd (111). Yn mis Mai y rhai lwcus oedd: £50: Myrna Owen, Camlan (108); £25: Goronwy Jones, 12 Tan y Cae (88); £10: Dafydd Jones, 7 Tan y Buarth (68).

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU. Bu Bethel yn amlwg iawn yn yr Eisteddfod eleni gyda Selwyn Iolen yn cychwyn ar ei gyfnod yn Archdderwydd, Dewi Griffiths ar y Corn Gwlad a Gethin Griffiths yn Facwy, a'r tri yn gwneud eu gwaith yn ardderchog.

Cafodd Huw Llywelyn Eisteddfod arbennig o lewyrchus, a Sioned Meleri yn cipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Cân Gymraeg. Llongyfarchiadau hefyd i'r Parti Cerdd Dant a ffurfiwyd yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod ac a hyfforddwyd gan Bethan Jones, ac i'r tair o'r pentref oedd yn aelodau o Leisiau Llifon.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i bawb fu'n sefyll arholiadau eleni. Pob lwc iddynt i gyd wrth fynd ymlaen i waith ac i goleg.


TAFARN BRYNGWNA
Caeathro

Croeso mawr i bawb i'r 'Bryngwna' yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen.

*Cinio dydd Sul*
*a byrbrydau ar gael*

Ffoniwch (01286) 674568 i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw

GORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)
Eifion Hughes (7 diwrnod)
*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel*




## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YR YSGOL GYNRADD
Bu'n ddiwedd tymor prysur iawn arnom yn yr ysgol. Cafodd disgyblion yr Adran Gynradd fynd i weld yr arddangosfa 'Eu Gorffennol, Ein Dyfodol' a gynhaliwyd yn y Galeri.

Aeth yr un disgyblion ar eu trip blynyddol i Sw Caer eleni. Roedd yn llethol o boeth yno'r diwrnod hwnnw a'r plant a'r anifeiliaid yn chwilio am le i gysgodi.

I barc 'Yr Erw Las' yr aeth disgyblion Bl 1 a 2, ac i Fferm Henblas yr aeth y Babanod Derbyn a'r Meithrin. Bu'r tywydd yn ffafriol iddynt hwythau hefyd. Yn ychwanegol cafodd y babanod gyfnod (fesul dosbarth) yng nghae chwarae Nant y Glyn i werthfawrogi yr hyn sydd ganddynt yn eu pentref.

Am y pythefnos cyntaf o'r gwyliau bu amryw o'r plant yn brysur yn ymarfer a pharatoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n rhaid llongyfarch aelodau Rygarug am eu perfformiad o'u sioe 'Copa Caban'; y rhai oedd yn cymryd rhan yn y pasiant 'Wil wrth y Wal'; y genethod fu'n perfformio y Ddawns Flodau yn y seremoniau coroni a chadeirio ac hefyd Gwenno Gibbard, a fu'n cymryd rhan yn y sioe 'Porc Peis Bach'. Gwnaeth pob un ohonoch eich gwaith yn rhagorol, byddwch yn cofio ac yn trysori y profiad am byth rwy'n siŵr.

Diwedd y tymor roeddym yn ffarwelio ag un o'r staff a fu gyda ni am chwe mlynedd. Cyflwynodd Mr Williams anrheg bach a thusw o flodau i Mrs Gillian Owen ar ran y plant a'r staff, a dymunodd bob hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol y Gelli yng Nghaernarfon.

Wrth ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6, dymunodd yn dda iddynt yn eu gyrfa yn Ysgol Uwchradd Brynrefail a'u hannog i wneud eu gorau bob amser a manteisio ar bob cyfle da. Dymunodd yn dda hefyd i'r disgyblion sydd â'u teuluoedd yn symud o'r ardal i fyw. Gobeithio y byddant yn setlo yn eu hysgol newydd yn sydyn iawn.

Cyn i'r ysgol gau am y gwyliau cawsom y newyddion bod Mr Griffith, Blwyddyn 4, yn dad unwaith eto. Ganwyd Cai Morgan i Mr a Mrs Griffith, brawd a ffrind bach i Gwenlli a Huw. Llongyfarchiadau mawr ichi ac edrychwn ymlaen ichi ddod heibio inni gael eich gweld.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Iola Evans, mam Mrs Janet Davies (Anti Janet y plant). Cydymdeimlwn â hi yn ei phrofedigaeth.

Pan ddaw y rhifyn hwn o'r *Eco* o'r wasg bydd y gwyliau bron ar ben. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ôl yn yr ysgol yn barod i weithio ar ôl y gwyliau. Bydd lliw haul ar bob un ohonoch wedi inni gael tywydd da yn ystod yr wythnosau diwetha.

Paratoi ar gyfer rhaglen deledu: Yn ddiweddar aeth disgyblion Bl1 i Stiwdio Barcud i gymryd rhan yn y rhaglen deledu 'Ribidires'. Buont yn gwneud gwaith celf. Gwyliwch amdanynt ar y teledu yn y dyfodol agos.

Llongyfarchiadau i enethod Bl3 fu'n cymryd rhan yn y Ddawns Flodau yn y Seremoniau Coroni a Chadeirio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Faenol ddechrau Awst.

PRIODAS. Ar 13 Awst, yn Eglwys Crist, Caerfyrddin, priodwyd Iwan Llŷr, mab Eirian ag Elfed, Glanffynnon gynt, a Sarah Evans o Lansteffan. Llongyfarchiadau calonnog iddynt a hefyd i Elfed ar gael ei urddo yn Gymrawd er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru, Bangor, am ei gyfraniad i ddiwylliant Cymreig.

PLAID CYMRU. Cynhaliodd Cangen Llanrug o Blaid Cymru eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nos Iau, 14 Gorffennaf, yn y Sefydliad Coffa. Cafwyd adroddiadau gan y swyddogion ar waith y flwyddyn, a mynegwyd balchder yn llwyddiant yr Aelod Seneddol, Hywel Williams, yn yr Etholiad Cyffredinol.

Ailetholwyd Phyllis Ellis yn Gadeirydd, Meirwen Lloyd yn Drysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth, Berwyn a Pat Parry Jones yn Drefnwyr y Clwb Cant, a Llinos Davies yn Ysgrifennydd. Etholwyd y Cynghorydd Charles Jones yn Is-Gadeirydd. Penodwyd cynrychiolwyr y Gangen i'r Pwyllgor Etholaeth, y Cyngor Cenedlaethol a'r Gynhadledd, a gynhelir ym mis Medi yn Aberystwyth.

Dyma enillwyr y Clwb Cant am y misoedd diwethaf:
Ebrill: 1. Dafydd Arfon; 2. John Morris;
Mai: 1 a 2. Olwen Llywelyn;
Mehefin: 1. Eileen Jones; 2. Helen Parry.
Gorffennaf: 1. Eileen Jones; 2. Deinol Evans.

Cafwyd amryw o awgrymiadau diddorol am gyfarfodydd y flwyddyn nesaf, gan ddechrau hefo Helfa Drysor ym mis Medi.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG
Mae'r Cyngor yn cyfarfod ar y drydedd nos Fawrth ymhob mis, naill ai yn Ysgol Cymuned Cwm y Glo neu yn y Sefydliad Coffa yn Llanrug. Clerc newydd y Cyngor yw Mair Lloyd Hughes, Glasgoed, Llanrug. (677263)

Daeth PC Andy Abbott a WPC Joanne Doughty – Swyddogion Cymunedol i gyfarfod mis Gorffennaf a chyflwynwyd bwriadau'r heddlu wrth ymdrin â'r camymddwyn sy'n digwydd yn Llanrug. Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Sefydliad Coffa ar gyfer nos Fercher, Awst 24ain am 7 o'r gloch. Byddai hwn yn gyfle i'r pentrefwyr, yn arbennig trigolion Ffordd yr Orsaf, i leisio eu barn. Rhoddwyd digon o gyhoeddusrwydd i'r cyfarfod.

**Y Fynwent**. Mae llawer o waith canmoladwy wedi ei wneud i wella'r Fynwent dros y misoedd diwethaf ac mae'r maes parcio newydd wedi ei orffen erbyn hyn. Yn fuan rŵan bydd y safle gladdu newydd a phen uchaf y fynwent yn cael eu clirio, yn ogystal â thacluso a thrwsio y waliau cerrig a'r ffens o amgylch y fynwent. Bydd hyn yn rhwystro defaid rhag dod i mewn i fynwent y plwyf. Bydd y giât fawr i'r maes parcio yn cael sylw ond ni fydd yn cael ei chloi gan fod llwybr cyhoeddus yn mynd drwy'r fynwent.

**Ceisiadau Cynllunio**. Cafwyd nifer ohonynt dros y tri mis diwethaf ac maent i gyd wedi eu caniatáu gan bwyllgor Gwynedd oni bai am gais Plas Hafod, Ceunant, i greu uned wyliau. Hefyd gwrthodwyd cais Tan y Coed Uchaf, Tan y Coed, i ail sefydlu defnydd yr adeilad fel tŷ llawer iawn mwy na'r adeilad gwreiddiol.

**Adran Priffyrdd**. Mynegwyd pryderon am gyflwr ochr y ffordd o Groeslon Marc i Groesffordd Bryngwyn.

Mae Croesffordd yr Efail a Ffordd Glanmoelyn hefyd yn poeni nifer o drigolion gan fod trafnidiaeth gyson a phrysur yn defnyddio'r groesffordd, a bod cymaint o blant yn byw ac yn chwarae yn ei hymyl. Gobeithir cael rhyw ddull o arafu'r traffig yn y fan yma.

Man arall sy'n poeni trigolion yw'r ffordd o Fecws Bryngwyn i lawr i Dan y Coed, gan fod ceir yn cael eu parcio o flaen y tai a cheir yn trafeilio ar hyd y ffordd yn llawer rhy gyflym. Mae'n anodd iawn i gerddwyr hefyd gael lle i gerdded yn ddiogel yma.

Oherwydd fod ceir yn cael eu parcio ar ddwy ochr y ffordd yng Nghwm y Glo, nid yw cwmni bysiau KMP yn gallu gyrru drwy'r pentref yn gynnar yn y bore nac ar ddiwedd y dydd. Mae hyn yn achosi pryder i'r bobl hynny sy'n llwyr ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Bydd cyfyngder cyflymdra o 40mya yn cael ei roi ar y ffordd A4086 o Gwm y Glo i Lanrug. Mae'r cyngor wedi gofyn am welliant i hyn a chael y cyfyngiad i gychwyn o'r tu draw i'r Fricsan.

Braf yw gwybod y bydd Cyngor Gwynedd yn mynd ati gyda hyn i addasu palmentydd yn Llanrug ar gyfer pobl sy'n defnyddio sgwter neu gadair olwyn. Bydd hyn yn eu galluogi i fynd ar y pafin a dod i lawr oddi arno yn hwylus.

Anfonwyd llythyr i longyfarch pwyllgor cae chwarae Ffordd yr Orsaf am y gwaith ardderchog sydd wedi ei wneud yno. Gan fod cymaint o ddefnydd arno erbyn hyn, pwysleisiwyd pwysigrwydd cadw cŵn allan o'r cae, a dylai pob perchennog gymryd sylw o hyn o safbwynt Iechyd a Diogelwch defnyddwyr y caeau chwarae. Bydd arwyddion newydd yn cael eu gosod maes o law.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned, Nos Fawrth, Gorffennaf 19eg 2005 yn Ysgol Cymuned Cwm y Glo ac ail etholwyd y Cyngh.Arwel Thomas yn gadeirydd gyda'r Cyngh. D. Whiteside Thomas yn is-gadeirydd. Diolchwyd i Arwel Thomas am ei waith drwy'r flwyddyn ac yn arbennig felly ar brosiect Gwella'r Fynwent.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Cwm y Glo am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Medi 20fed.

PWYLLGOR EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Y gweith-garedd olaf i godi arian at ein targed oedd tynnu'r Raffl Fawr. Diolch yn arw iawn i'r cwmnïau ac unigolion a roddodd y gwobrau dilynnol:
Gwely a Brecwast a phryd nos i ddau (Seiont Manor): Gareth a Megan Roberts, Llanrug; Llun gwreiddiol (Frank Green): G. Thomas, Islwyn, Bethel; 10 kilo cyw iâr (Grampian Meats): G. Crowley, 3 Y Glyn, Caernarfon; MOT car (London Garage, Cwm y glo): Clynnog; Lamp (Piggery Pottery): J. Owen, Afallon, Llangaffo; Pot (Piggery Pottery): Jones, Nant y Ceirw, Sarn Meillteyrn; Llun (Oriel Cwm y glo): Ann Jones, Gerallt, Groeslon; Tegan Meddal (Elaine's): Naomi; C.D. Llanrug: Ifanwy, Antur Waunfawr; Offer trin gwallt (Elaine's): Megan Roberts; Tegan Meddal (Elaine's): Miriam, Llanrug.
Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus eithriadol a diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogaeth arbennig.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant am fisoedd Gorffennaf ac Awst oedd: £20: Mrs B. Roberts, Glanfa; £7: Mrs J. Walsh, 9 Hafan Elan; £5: Mrs D. Jones, 12 Hafan Elan. £20: Ms E. Roberts, 7 Afon Rhos; £7: Mrs D. Fisher, 6 Hafan Elan; £5: Mr G. Hughes, Eithinog, Afon Rhos.

TAITH GERDDED. Diolch o galon i bawb ddaru fy nghefnogi ar y daith gerdded i godi arian tuag at y salwch N.A. ac Epilepsy. Mae Gordon a Gill Parry yn gwerthfawrogi y cyfanswm o £477 ac yn diolch yn fawr iawn am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth. Anne Parry Jones, Perthi, Bryngwyn.

DIOLCHIADAU. Dymuna Dylan a Portia ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab bach, Lucas. Llongyfarchiadau i Taid a Nain hefyd, Maureen ac Alun, Antmor, Bryn Moelyn.

DYMUNA teulu y ddiweddar Nancy Morris, Awelfryn, Tan y Coed, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a


*Pryd i Bawb*
*Bwffe blasus o safon at bob achlysur*
*Priodas*
*Parti*
*Te Angladdau*
*Cinio Busnes*
CERID MACKINNON
*Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY*
(01286) 673190



DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

estynnwyd atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a chwaer annwyl iawn. Diolch yn arbennig i Feddygon, Nyrsus Cymuned a staff Meddygfa Waunfawr, a Meddygon a Nyrsus Ward Tegid, Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

Diolch hefyd i'r Parchedigion Dafydd Hughes, John Pritchard a Gwena Richards am eu gwasanaeth. I Mr Munro yr organydd, Gwynfor Jones, Llanberis, yr ymgymerwsr, am eu trefniadau trylwyr ac i Bethan am ei charedigrwydd. Bydd y rhoddion a dderbyniwyd yn ddiolchgar yn cael eu rhannu rhwng Meddygfa Waunfawr a Ward Tegid, Ysbyty Gwynedd.

DYMUNA Myfanwy, Medwyn, Manon, Gwion a Siwan, teulu y ddiweddar Nan Jones, Perthi, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn. Bu'r geiriau caredig yn gysur mawr, a diolch am y rhoddion hael. Anfonwyd dros £500 i'r Gymdeithas Osteoporosis (cangen Môn ac Arfon).

Diolch i'r Parchedigion Dafydd Hughes a John Pritchard am eu gwasanaeth arbennig ddydd yr angladd. Diolch hefyd i'r ymgymerwr, E.W. Pritchard, Llanberis, am eu gwaith urddasol.

*'Ac fe sych Duw y maith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt; a marwolaeth ni bydd mwyach.'*

DYMUNA Llew a Cathrin, Rhosbodrual (Rhiwenfa, Afon Rhos gynt) ddiolch ar ran Eilir a Catrin am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a gawsant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Nel Mair, yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU. Pob dymuniad da i Dylan Lloyd Jones a'i wraig, Enyd, ar enedigaeth eu baban bach yn ddiweddar. Mae'n siŵr bod hen Nain, Mrs Bet Jones, Lyndale, a'r hen Daid, Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, wedi gwirioni.

DYMUNIADAU GORAU. Llongyfarchiadau mawr i holl blant a phobl ifanc y pentref sydd wedi llwyddo yn arholiadau'r ysgol a'r colegau. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

PROFEDIGAETHAU. Yn ystod y ddau fis diwethaf,m mae sawl teulu mewn galar yn dilyn colli eu hanwyliaid. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant iddynt i gyd.

Mrs Iola Elizabeth Evans, mam annwyl Gary, Janet, Lynette a Paula a nain a chwaer annwyl;

Mrs Nan Jones, Perthi, mam annwyl Myfanwy a'i theulu a chwaer a chwaer yng ngyfraith;

Mr O. Stanley Jones, Goledd, gŵr annwyl a thad Aneurin a Helen a'u teuluoedd;

Mrs Annie Catherine (Nancy) Morris, Awelfryn, Tan y Coed, Mam annwyl Eirian a Rhiannon a'r teulu oll.

Mr Gwilym Lloyd Jones, 9 Rhos Rug, Tad annwyl Meryl a Linda a thaid a hen daid arbennig a brawd annwyl.

Cydymdeimlwn â John Trevor, Hafod Garage, yn ei brofedigaeth yntau o golli ei dad oedd yn byw yng Nghaernarfon.

NEWYDDION O'R EGLWYS. Gwahoddiad i ymuno â thrip ssiopa yn Wrecsam, dydd Sadwrn, 1 Hydref. Y gost ydyw £10 y pen a gofynnir am £5 o flaendal.

Noson 'Bingo' yn yr Ysgol Gynradd nos Wener, 9 Medi am 7.00 o'r gloch.

Bydd Ras Chwiaid yn cael ei threfnu ar gyfer mis Medi, ar Afon Seiont yn Crawia. Y dyddiad i ddod eto.

Am wybodaeth am unrhyw un o'r gweithgareddau uchod, ffoniwch Andrfea Roberts ar (01286) 671981.




Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:
**Swyddfa Etholaeth**
**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES
**GARTH MAELOG**
**51 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870840**


# CAEATHRO


Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)


CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn y Ganolfan, Waunfawr ar 28 Mehefin. Roedd y Cynghorydd Clive James yn bresennol a chafwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Vera Roberts. Yn absenoldeb y Clerc am o leiaf 6 mis, ceisir recriwtio swyddog dros dro.

Y prif eitem yng Nghaeathro oedd diffyg gweithrediad gan Gyngor Gwynedd i glirio'r tipio slei yng nghanol y pentref. Hefyd cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha dir oedd wedi ei glustnodi ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Unedol newydd. Bydd penderfyniad terfynol Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r union dir yn hysbys maes o law.

MIRI HAF. Cynhaliwyd Miri Haf llwyddiannus ar brynhawn Sadwrn braf yng nghanol mis Gorffennaf. Diolch i gefnogaeth hapchwaraewyr Tynfa Misol Pwyllgor y Cae Chwarae, roedd y mynediad am ddim a chyflwynwyd gwobrau a medalau i'r plant a'r bobl ifanc.

PÊL-DROED. Llongyfarchiadau i Dîm Pêl-droed dan 9 oed, Caeathro, am chwarae cystal yng nghystadleuaeth Tlws yr Eco, a drefnwyd gan *Eco'r Wyddfa* yn Llanrug.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas y Cae Chwarae ar gyfer mis Gorffennaf oedd:
£40: (84) Jean a Stan Hutton, Brogaredd, Stad Glandŵr; £25: (93) Rosie Lloyd, 2 Rhosbach; £15: (64) Alun Roberts, 10 Erw Wen; £5: (98) Iona Ceiriog, 4 Erw Wen.

PEN-BLWYDD O BWYS. Llongyfarchiadau i Denis Ratcliffe ar ei ben-blwydd yn 70 oed. Mae o'n cadw'n heini trwy gerdded o Dyddyn Cae i'r garej ac yn ôl bob bore efo'r ci, Molly.

PENTREF Y FLWYDDYN NWY CALOR. Wedi i'r beirniaid ymweld â phentrefi ar draws y gogledd, Clawddnewydd yn Sir Ddinbych, a ddewiswyd fel enillydd 'Pentref y Flwyddyn'. Fodd bynnag, mae Caeathro yn dal yn y gystadleuaeth yn y categorïau 'cymuned' a'r 'amgylchedd'.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU 2005. Llongyfarchiadau i drigolion Caeathro a'r Cylch am hymdrech glodwiw a'u rhoddion hael i gronfa leol cymuned Waunfawr.

PEN-BLWYDD O BWYS. Dymuna Bobby Owen, 1 Erw Wen, ddiolch i bawb am eu rhoddion a'r llu gardiau a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 oed.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Medi.
4: 2.00 Parch Trefor Jones;
11: 11.00 Ysgol Sul;
18: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Ronald Williams;
25: 11.00 Ysgol Sul.

GLANHAU CANOLFAN Y CAPEL A THACLUSO'R FYNWENT. Er mwyn paratoi Canolfan y Capel ar gyfer digwyddiadau'r hydref, gofynnir am gymorth i lanhau'r adeilad y tu mewn a thu allan a thacluso'r fynwent yn ystod dydd Iau, 1 Medi. Bydd yr adeilad yn agored o 10.00 y bore, gyda rhestr o dasgau i'w cwblhau. Croeso i bawb. Paned ar gael!

TYNFA MISOL. Enillwyr tynfa Cymdeithas y Cae Chwarae ar gyfer mis Awst oedd: £40: (32) Mrs D. Moore, Eryl; £25 (111) Mr J. Morris, 7 Bryn y Gof; £15: (48) Mr Wil Hughes, Cefn Gwern; £5: (101) Mr Dewi Parry, Cefn Rhos.

CYFARFOD BLYNYDDOL. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am 8.00 yh nos Lun, 19 Medi yng nghanolfan y Capel (noder!) Bydd mantolen 2004–05 ar gael, ethol swyddogion a phwyllgor ac unrhyw eitem i'w drafod trwy ddwylo'r Ysgrifennydd, Tim Lloyd, Tyddyn Cae, ymlaen llaw.

Un eitem fawr o bwys fydd cais gan Glwb Pêl-droed Waunfawr derbyn lle ar y cae chwarae pêl-droed er mwyn chwarae ar safon uwch.


**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**
Ffôn/Ffacs: **(01286) 650291**
**Ar Agor**
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
**Ar Gau**
Sul a Mercher
Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

SNOWDONIA PARC
**WAUNFAWR**
**•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant**
**• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol**
**• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn**
**Ffôn: 650218**

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Gorffennaf oedd: £40: Megan Williams, 17 Tref Eilian; £25: Gladys Greasley, Minafon; £15: O. T. Jones, Bryn Gwenallt.
Yr enillwyr am fis Awst oedd:£40: P. N. Greasley, Minafon; £25: Haydn Jones, Rhandirmwyn; £15: Mrs P. Wlliams, Parc.
LLONGYFARCHIADAU i'r rhai fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau. Y rhai sy'n aelodau o'r corau fu'n cymryd rhan yn y cyngherddau ac yn cystadlu.
I Huw Griffith ac Elgan Rhys Jones a oedd yn cymryd rhan yn y pasiant 'Wil wrth y Wal'. ac i Iola Ynyr, Dolwar Fach, a fu'n paratoi y plant ar gyfer y pasiant. Roedd yn dipyn o gamp cael sioe mor fawr at ei gilydd. Cawn hefyd ymfalchïo yn llwyddiant Dylan Iorwerth yn ennill y Fedal Ryddiaith, gan iddo fyw yn y Waun drwy gyfnod ei blentyndod.
GENEDIGAETHAU. Yn ystod yr haf benidthiwyd wyth teulu sydd â chysylltiad â'r pentref â genedigaeth baban bach.
Ganwyd merch fach, Elin, i Iona a Richard, Glan Dŵr, chwaer fach i Ioan. Ers ei genedigaeth mae Elin wedi gorfod aros yn Ysbytai Glan Clwyd a Gwynedd. Mae, erbyn hyn, yn dod yn ei blaen yn dda ac rydym yn mawr obeithio y caiff ddod adref yn fuan.
Mab bach, Mabon, a anwyd i Delyth ac Iwan, Tre Wen, brawd a ffrind bach i Esyllt a Gwion.
Ganwyd mab bach, Daniel, i Angharad a Martin, Ty'n Rhodd.
Ganwyd mab bychan, Brychan Rhys, i Eurig a Saran, Bryn Gloch, Betws Garmon, a dyma Brenda ac Iestyn, Tŷ Ni yn nain a thaid am y tro cyntaf.
Trafaeliodd Norman ac Olwen, Llidiart Wen, i Gaerdydd i gyfarfod â'u hŵyr bach cyntaf, Guto Gwilym, mab bach i Elin ac Arwyn. Tra yn ymweld â nain a taid yn y Waun, gorfu i Guto dreulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty, ond mae yn llawer gwell erbyn hyn.
Ganwyd merch fach, Chloe, i Karen a Michael Owen, Stad Bro Waun, chwaer fach i Fiona, Tomos ac Emily, ac wyres i Megan Williams, Bryn Difyr ac i Dennis Bound, Bro Waun. Mae'r fechan yn or-wyres i Mrs Jones, Glasfryn a Mrs Westphall, Stad Tref Eilian.
Merch fach, Claire, a anwyd i Jacqueline ac Alan, Stad Tŷ Hen, chwaer fach i Daniel a Charleen.
DYMUNA Alan a Jacqueline, 9 Stad Tŷ Hen, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Claire Jean, ar 7 Gorffennaf.
DATHLU PEN-BLWYDD.
Llongyfarchiadau i Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed, ac hefyd ar ddod yn hen nain eto.
Ganwyd merch fach, Enlli Gwyn, i'w hŵyr, Dylan, ac Enid yn Llanrug.
Dymuna Mrs Owen ddiolch am y dymuniadau da, y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd. Diolch o galon i bawb.
LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i'r dyfodol i Zoe Evans, Tremallt, a ddathlodd cyrraedd ei deunaw oed yn ddiweddar.
DYWEDDÏAD.
Dymunwn longyfarch a dymuno'n dda i Gwenllian Dafydd, Glanfa, ar ei dyweddïad ag Aled Roberts o Gaernarfon.
PRIODAS. Dymunwn bob hapusrwydd i Christopher Peters, Ty'n Cae Newydd, ar ei briodas â Iola Thomas o Ben-y-groes. Byddant yn ymgartrefu yng Nghaernarfon.
PEN-BLWYDD PRIODAS.
Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i Derek a Lis Williams, Bryn Beddau, ar ddathlu eu Priodas Berl yn ddiweddar.
ARHOLIADAU. Llongyfarchiadau i Eleri Anderson, Stad Glyn Afon, ar lwyddo yn yr arholiadau i fod yn Ymwelydd Iechyd.
Estynnwn ein llongyfarchiadau i bob un ar eu llwyddiant yn yr arholiadau ysgol a choleg a dymunwn yn dda i chi i'r dyfodol.
Dymuniadau gorau i bawb fydd yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd ar ddiwedd y gwyliau.
YMDDEOLIAD. Dymuniadau gorau i Mrs Olwen Williams, Llidiart Wen, ar ei hymddeoliad o'i swydd dysgu yn Ysgol Friars, Bangor.
ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mrs Megan Williams, Stad Tref Eilian; Mrs Sylvia Peters, Ty'n Cae Newydd; Mr Wyn Griffith, Ger y Nant a Mr Gwyn Davies, Bryn Eithin, adref o'r ysbyty. Hefyd Mr Emyr Evans, Arfryn, wedi iddo dreulio cyfnod mewn ysbyty yn Lerpwl yn ddiweddar.
CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu Tan-y-Coed, Stad Bro Hyfryd, yn eu profedigaeth o golli tad Michael yn ddiweddar.
Cydydmeimlwn yn ddwys hefyd â theulu Gwastadfaes yn eu profedigaeth o golli mam Gareth.
Hefyd cydymdeimlwn â Mr Dafydd Williams, Tŷ Mawr yn ei brofedigaeth o golli ei dad.
Yn ddiweddar bu farw Mrs Jane Mumtaz, Treflan Uchaf. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.
CROESAWN Mrs Dunn, Trigfa, atom i'r pentref a hefyd cydymdeimlwn â hi yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer o Nantmor.
NEWID ARDAL. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae teuluoedd wedi symud i fyw oddi yma. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartrefi a'u hardaloedd newydd. Estynnwn groeso cynnes i'r teuluoedd sydd wedi dod yma i fyw.
YR YSGOL SUL. Oherwydd digwyddiadau eraill methodd aelodau yr Ysgol Sul a mynd i Ysgol Brynrefail ar gyfer gweithgareddau Sbri yr Ysgol Sul. Dymunwn ddiolch i'r trefnwyr am eu gwahoddiad.
Eleni cawsom ymuno ag Ysgol Sul Capel y Rhos, Llanrug, i fynd am drip i barc adloniant 'Gulliver's World'. Fe fwynhaodd pob un y diwrnod. Diolch am gael ymuno â Llanrug.
Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 11 Medi, am 10.00 o'r gloch yn Eglwys y Waun. Estynnir croeso i aelodau newydd.
PÊL-DROED Y PENTREF.
Dydd Sadwrn, 16 Gorffennaf, cafwyd diwrnod o bêl-droed ar gae y Ganolfan. Cyflwynwyd tlysau i aelodau'r timau a fu'n chwarae drwy'r tymor.
Dymunwn yn dda i'r timau yn y gemau pan ddaw'r tymor newydd.
YSGOL WAUNFAWR
Ganol fis Mehefin bu blwyddyn 5 a 6 mewn Ffair Bio Amrywiaeth ym Mhlas Tan-y-Bwlch. Roedd y tywydd yn wych a chawsant fudd mawr o'r diwrnod yn astudio pob math o greaduriaid bach ac yn gwneud bocsys adar i'n gardd ni yn yr ysgol ac i'r Antur.

Ddiwrnod wedi'r Heuldro cafodd Adran y Babanod ddiwrnod i'r brenin yng Ngelli Gyffwrdd. Y diwrnod canlynol bu'r Adran Iau yr gwrando ar gerddorion o wlad Groeg yn y Galeri yng Nghaernarfon. Derbyniodd ddau ddisgybl o'r ysgol, Guto Bl 3 a Rowan Bl 5, wobr am eu gwisg ffansi. Da iawn chi.

Hoffem ddiolch ar ran Pwyllgor Rhieni a Chyfeillion yr ysgol i'r rhieni hynny, nain a thaid a phlant, a fu'n llenwi bagiau siopwyr ym Morrisons Caernarfon ar bnawn dydd Sadwrn, Mehefin 25. Roedd braich sawl un yn brifo ond, drwy eu gwaith caled, llwyddwyd i gasglu £775.00 i'r ysgol. Bydd yr arian yma yn mynd tuag at dalu am bypedau arbennig a fydd yn ymddangos yn y dosbarth derbyn ym mis Medi. Cewch fwy o wybodaeth am Wali a Doli yn y rhifyn nesaf o'r *Eco*.

Daeth yr Athro Eric Sunderland a'i wraig i'r ysgol fore Mercher Mehefin 29, i gyflwyno'r Darian Gerdd. Llongyfarchiadau mawr i Catrin Drake, o flwyddyn 6, ar ennill y darian am eleni. Diolch i Mrs Ann Marston am drefnu yn ôl ei harfer.

Bnawn Gwener, 1 Gorffennaf, aeth Adran y Babanod i Barc Glynllifon ar eu taith noddedig flynyddol. Diolch i bawb a wnaeth noddi'r plant, bydd yr arian a gasglwyd yn mynd tuag at brynu cyfres fathemateg newydd i'r ysgol.

Cafodd plant blwyddyn 5 a 6 amser gwych yng Nghaerdydd Gorffennaf 6–8. Cafwyd tridiau llawn gweithgareddau a phawb yn cael agoriad llygaid yng Nghanolfan y Mileniwm, y Cynulliad a'r Stadiwm.

Cynhaliwyd diwrnod Mabolgampau'r ysgol ddydd Llun Gorffennaf 11.

Roedd y tywydd yn fendigedig a chafwyd diwrnod arbennig o dda. Roedd pawb wedi gwisgo yn lliwiau eu tai, Cadnant mewn glas, Gwyrfai mewn coch a thîm Eilio mewn melyn a chafwyd dwy orymdaith o gwmpas y cae. Bu cystadlu brwd o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6, a phinacl y pnawn oedd rasus marathon yr Adran Iau a'r rasys i'r rhieni. Gwyrfai orfu eto eleni a'u capteiniaid, Cain Thomas a Jessica Williams, yn derbyn y darian a tharianau bach iddynt hwy eu hunain i gofio'r achlysur.

Dydd Mercher, 13 Gorffennaf, cynhaliwyd ein Ffair Haf flynyddol. Roedd y tywydd braf yn caniatau i'r holl stondinau fod ar yr iard. Cynhaliwyd gemau ar y cae a daeth Rhodri Meilir a Llŷr Ifans i helpu yn y gôl. Gwnaed elw anrhydeddus o £1,225.00. Diolch i bawb a gyfrannodd i'r noson ac yn arbennig i Karmen, mam Angharad Bl3, a roddodd £500 yn rhodd tuag at y noson . Mawr yw ein diolch.

Eleni trefnwyd trip Ysgol Feithrin yr ysgol ag Ysgol Feithrin y pentref ar y cyd, ac er bod y bws yn hwyr yn cyrraedd mwynhaodd pawb ar y trên bach o gwmpas Llyn Llanberis. Cynhaliwyd noson i rieni newydd y dosbarth meithrin Medi 2005 yn yr ysgol nos Lun, Gorffennaf 18. Bu'r plantos yn gweld eu dosbarth newydd y pnawn canlynol a, choeliwch chwi ddim, roedd un yn crio ddim eisiau mynd adref!


Trip olaf y tymor oedd ymweliad blwyddyn 3 a 4 i'r Amgueddfa, Techniquest a'r Mynydd Gwefru yn Llanberis, ddydd Mawrth, 19 Gorffennaf. Diwrnod gwerth chweil arall a phawb wedi dysgu rhywbeth newydd ac wedi cael hwyl.

I gloi y tymor a'r flwyddyn addysgol cynhaliwyd y Cyfarfod Gwobrwyo ddydd Mercher, 20 Gorffennaf. Dyma'r enillwyr eleni: Y Darian Gelf: Jasmine Gilligan Bl 6; Y Darian Ymdrech: Benjamin Becket Bl 5; Tarian Fabolgampau: Dafydd Harman Bl 4; Jessica Williams Bl 6 a Shannon Owen Bl 3. Y Darian Gywaith: Faye Latham Bl 3; Gwobr Cywaith Blwyddyn 3: Gruffydd Rowlands a Faye Latham; Blwyddyn 4: Lois Jones a Luc Thomas; Blwyddyn 5: Anya Price ac Elin Griffiths; Blwyddyn 6: Cain Thomas. Derbyniodd Tomos Meredydd, dosbarth derbyn, ac Alex Haycock, Blwyddyn 2, docyn llyfr £5.00 yr un am gasglu'r symiau mwyaf yn y daith gerdded noddedig i'r Babanod. Cyflwynwyd geiriaduron yn rhodd i blant blwyddyn 6 oedd yn ein gadael eleni a dymunir yn dda iddynt yn ysgol Brynrefail ym mis Medi. Roeddym hefyd yn ffarwelio ag Anti Llinos, sydd wedi bod ym mlwyddyn 1 a 2 ers dwy flynedd, dymunwn pob lwc iddi yn y dyfodol.

I gloi hoffem fel ysgol longyfarch Anti Jaqueline a'r teulu Alan, Charleen a Daniel, ar enedigaeth Clare, brysiwch draw eich dwy i'n gweld!

Dymunwn hefyd wellhad buan i Mrs Sian Williams athrawes blwyddyn 3, gan obeithio y bydd yn teimlo'n well erbyn mis Medi. Mae pawb yn edrych ymlaen i'w gweld hithau.

Gwyliou dedwydd a diolch i bawb am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.


Am Offer Tŷ a Gardd...
FORMAG
41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

**Anrhydedd Gorsedd y Beirdd**
Dymuna'r Cyngor longyfarch Hefin Goronwy Jones ar gael ei dderbyn i'r Orsedd, yn dilyn ei waith gyda phlant a ieuenctid Seindorf Arian Deiniolen ar hyd y blynyddoedd.

**Eisteddfod Genedlaeth Eryri a'r Cyffiniau**
Adroddodd Richard Llwyd Jones, ar ran pwyllgor y 'Steddfod, eu bod yn ddiolchgar iawn i ardal Llanddeiniolen am godi mwy na'r targed o arian at y gronfa. Penderfynwyd diolch yn *Eco'r Wyddfa* a *Llais Ogwan* i holl aelodau'r pwyllgorau pentref am eu brwdfrydedd a'u gwaith caled.

* * *

Cyfarfu'r Cyngor ar y 5ed o Orffennaf.

**Marchlyn Mawr.** Mae gorchymyn cyfreithiol First Hydro yn dod i rym ar 6 Gorffennaf i adennill y tir a gymerwyd gan y teithwyr. Gofynnwyd am amser rhesymol iddynt glirio oddi yno, a rhoddwyd iddynt ddau ddiwrnod. Cysylltodd Len Jones â phwyllgorau caeau chwarae a phêl-droed i gloi eu gatiau, rhag i'r teithwyr fabwysiadu lle arall yn yr ardal.

Deallir eu bod yn defnyddio llawer o gerbydau heb dreth, heb brawf MOT ac mewn cyflwr peryglus. Dywedwyd bod hyn yn gyffredinol a phenderfynwyd amlygu'r ffaith i'r Cynghorydd Charles Jones (cynrychiolydd Cyngor Gwynedd ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru), fel cefnogaeth i'w ymgyrch. Hefyd, anfon copi o'r llythyr i'r Prif Uwcharolygydd Gareth Pritchard.

**Brynrefail.** Cyflwynwyd cwyn KMP na all eu cerbydau fynd trwy'r pentref am fod ceir wedi eu parcio ar ddwy ochr i'r ffordd, ac o'r herwydd mae'r gwasanaeth wedi ei ddiddymu.

Derbyniwyd adroddiad Gwynedd a dywedodd y Clerc bod y mater wedi ei gyflwyno i'r Heddlu ers tair wythnos. Dywedodd Pat Jones bod y sefyllfa yn well ar hyn o bryd. Penderfynwyd gofyn i Adran Cynllunio Gwynedd am eu barn.

**Llinellau melyn.** Dywedwyd bod ceir yn cael eu gadael ar linellau melyn ac nad yw'r Heddlu yn gweithredu, e.e. gwaelod Porth y Gogledd ac o flaen y Bull Inn, Deiniolen. Penderfynwyd gofyn i'r Heddlu ddirwyo'r torrwyr cyfraith.

**Cofeb o Gapel Maes y Dre.** Cyflwynwyd argymhellion Gwynedd a phenderfynwyd gofyn i Mri J. M. Jones, Gwaith Coffaol, Llanrug, osod y garreg yn ôl y cyfarwyddid, wrth ochr y cerrig coffa a ddaeth o gapel Disgwylfa.

**Tŷ Newydd, Penisa'rwaun.** Dywedodd Aled Green bod ffos wedi cau yn y ffordd – hysbysu'r Adran Ffyrdd.

**Y Ffordd at Gelli Gyffwrdd.** Ateb Gwynedd bod cynllun ar y gweill i wella'r ffordd a'u bod yn cyfarfod perchennog Gelli Gyffwrdd yn fuan.

**Gohebiaethau eraill**

**Ysgol Bethel.** Llythyr Prifathrawes ysgol Bethel yn atgoffa'r Cyngor nad oes cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethu'r ysgol. Gan bod un sedd wag ar y Cyngor o ardal Bethel, penderfynwyd aros tan y bydd Cynghorydd wedi ei benodi. Hysbysu'r ysgol o hyn.

**Blychau Ffôn cyhoeddus.** Cyflwynwyd adroddiad BT bod llai a llai o ddefnydd ohonynt a'u bod yn ceisio rhesymu'r sefyllfa gan osgoi eu diddymu'n gyfangwbl. Newidir y rhai sydd â lleiaf o ddefydd ohonynt i fod yn 'ddim tâl' h.y. gellir eu defnyddio ar gyfer galw'r gwasanaethau brys, i ffonio a throsglwyddo'r gost neu i alw cydlynydd BT.

Mae tri blwch yn yr ardal sy'n disgyn i'r categori yma, sef dau yn y Fachwen ac un ger Llanddeiniolen. Nid oedd gwrthwynebiad.

**Cynllunio**
Ceisiadau a dderbyniwyd:
Newid defnydd anecs: Ty'n 'Rardd, Brynrefail.
Codi Tŷ Newydd: Hen Waith Cofebion, Deiniolen.
Gwneud mynedfa a stablau: ger Cae Hywel, Penisa'rwaun.
Adeiladu Swyddfa: Coed Bolyn Mawr, Bethel.
Estyniad – Tŷ Capel Disgwylfa, Deiniolen.
Cais a ganiatawyd gan Wynedd: Ymestyn siop Gorsaf Beran, Deiniolen.

Dywedodd Phyllis Ellis bod Gwynedd wedi cyfeirio at gais yn enw S. Morgan, Cae Hywel, ni chafwyd cyfle i drafod hwn ac nid oes neb o'r enw hwnnw yn y cyfeiriad. Penderfynwyd gwneud ymholiad.

Cyfeiriodd Gwilym Williams at bebyll yn Dryll, Deiniolen, ac at arwydd wrth y ffordd fawr. Penderfynwyd cysylltu ag Adran Cynllunio Gwynedd.

Cyfeiriwyd hefyd at Bryn Rhedyn a Cae Rhedyn, Clwt y Bont. Dywedodd y Clerc nad oedd ateb a phenderfynwyd atgoffa Gwynedd a gofyn am ymateb buan.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Wern, Rhiwlas – angen gofyn i Wynedd weithredu ac ateb y Cyngor.

**Llwybrau**

**Torri gwair.** Dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn prisiau gan Fenter Fachwen a'i fod wedi ceisio prisiau gan amryw i dorri gwair llwybrau Rhiwlas a Bethel. Gobeithir cael prisiau yn ystod yr wythnos. Mae cytundeb Penisa'rwaun wedi ei wneud.

**Adroddiadau**

**Cyfarfod 'Un Llais i Gymru'.** Aeth Pat Jones i gyfarfod ardal Arfon a Dwyfor yng Nghaernarfon. Saesneg oedd y swyddogion i gyd a cheisiwyd cynnal y cyfarfod trwy gyfrwng yr iaith honno. Gwnaed protest a chychwynnodd rhai gerdded allan ond gwnaed goddefiad am y tro gan ddefnyddio'r cyfieithydd i'r ddwy iaith.

Penderfynwyd anfon llythyr at y mudiad i sicrhau na ddigwydd hyn eto. Gohiriwyd penodi cynrychiolydd tan y ceir ateb derbyniol.

Ychwanegodd Richard Ll. Jones bod symud y Gynhadledd Flynyddol o Aberystwyth i Lanidloes wedi gwanio'r gefnogaeth. Penderfynwyd gofyn i 'U.Ll.G.' ystyried ail-leoli'r gynhadledd yn ei hen gartref, lle bu trafodaeth adeiladol ar hyd y blynyddoedd.

**Y Grŵp Cymunedol.** Angen gofyn i Dafydd Einion Jones pryd y bydd y cyfarfod nesaf.

**Baneri i groesawu'r Eisteddfod.** Dywedodd Mrs Larsen bod ardaloedd eraill yn gosod baneri yn eu pentrefi i groesawu'r ŵyl. Penderfynwyd gofyn i Brifweithredwr Gwynedd beth yw'r sefyllfa; lle mae'r baneri i'w cael; pwy sy'n eu gosod; oes cymorth ariannol ar gyfer hyn, a beth fuasai rôl y Cyngor Cymuned?

# Prosiect Tai Fforddiadwy Gwynedd

**Crynodeb o Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy, Cyngor Gwynedd**

**Cyflwyniad**
Un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu pobl y dyddiau hyn yw eu methiant i brynu tai yn wyneb y cynnydd enfawr a fu ym mhris y farchnad dai. Ddiwedd 2003, sefydlodd Cyngor Gwynedd y Prosiect Tai Fforddiadwy er mwyn ymateb i'r sefyllfa a penodwyd Swyddog Tai Fforddiadwy i gydgordio'r ymdrechion yn lleol.

**Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd**
Un datblygiad diweddar pwysig yw fod Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu dogfen Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy, sydd yn darparu cyfarwyddyd manwl i ddefnyddwyr y system gynllunio ynghylch sut fydd polisïau cyfredol ar gyfer tai fforddiadwy yn caêl eu defnyddio. (Dim ond yn ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd mae'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol yma yn weithredol ac nid yw'n weithredol yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.)

Mae'r ddogfen yn manylu ar ddealltwriaeth a diffiniadau Cyngor Gwynedd ar wahanol agweddau o fewn y maes tai fforddiadwy. Fe gyflwynir isod grynodeb o'r prif agweddau.

**Beth yw Fforddiadwyedd a Tai Fforddiadwy?**
Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng fforddiadwyedd a thai fforddiadwy. Defnyddir y term 'tai fforddiadwy' i ddisgrifio eiddo penodol sydd â chost sydd yn is na phris y farchnad agored, ac sydd ar gael naill ai i'w gwerthu neu eu rhentu, i gategorïau penodol o bobl. 'Fforddiadwyedd' yw'r hyn sy'n penderfynu a yw'r modd (hynny yw, yr adnoddau ariannol) gan bobl i ddiwallu eu hanghen o ran tai trwy brynu neu rentu ar y farchnad agored heb gymhorthdal.

**Sut mae diffinio Tai Fforddiadwy?**
Tai fforddiadwy yw tai sy'n cael eu darparu i ddiwallu anghenion unigolion/cwplau/ teuluoedd gydag incwm annigonol i'w galluogi i gael mynediad i dai addas ar gyfer eu hanghenion (prynu neu rentu) ar y farchnad agored.

**Er mwyn cael eu hystyried fel 'tai fforddiadwy', bydd raid i ddatblygiadau ddiwallu un o'r categorïau isod:**

- Tai ar gael ar gyfer eu rhentu yn arferol gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, neu, gan ddatblygwr preifat ar dermau tebyg i dai cymdeithasol.
- Tai i'w rhan berchenogi gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (Tai Perchnogaeth Cost Isel), neu'r Cyngor, neu ddatblygwyr preifat.
- Tai ar gael i'w prynu am bris fforddiadwy, gan ystyried cyflogau lleol, prisiau tai a chyfraddau llog (Tai i'w prynu ar y farchnad am bris cost isel disgowntedig).

**Sut mae diffinio Fforddiadwyedd?**
Bydd fforddiadwyedd unrhyw gartref yn ddibynnol ar y berthynas rhwng y swm y gallai'r cartref ei fforddio a chost tai lleol addas.

Fforddiadwyedd mewn perthynas â tai a ddatblygir gyda Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru (Lefelau Canllawiau Cost Derbyniol (ACG) a fforddiadwyedd)

Mae pris yr holl unedau o dai fforddiadwy a ddatblygwyd gyda Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru (e.e. Cynlluniau Tai Cymdeithasol ar Rent a Pherchnogaeth Tai Cost Isel a weithredir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) a delir gan y prynwyr cyntaf neu brynwyr dilynol yn gorfod bod yn ddim mwy na lefel gyfredol Canllawiau Cost Derbyniol (ACG) Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y math a'r maint o dŷ dan sylw.

**Fforddiadwyedd mewn perthynas a Tai i'w Gwerthu ar y Farchnad am Bris Cost Isel Disgowntedig**
Mae'r rhain yn eiddo a werthir am swm gyda disgownt penodol (canrannol) sydd yn is na'u gwerth arferol ar y farchnad ac mae hyn yn caniatáu i bobl, na fyddant fel arall yn gallu prynu ar y farchnad agored, i'w prynu. Dylai'r mathau o dai adlewyrchu'r angen lleol am dai, ac ni ddylent

fod yn dai neu'n fflatiau sydd yn llai ac yn rhatach yn unig. Gweithredir Oblygiadau Cynllunio Adran 106 er mwyn sicrhau, os bydd y prynwr cyntaf yn gwerthu'r eiddo, bydd manteision y ddarpariaeth cost isel yn cael eu trosglwyddo i'r preswylwyr dilynol.

**Beth yw'r categorïau o Angen Lleol?**

Mae'n ofynnol i unrhyw waith asesu a wneir ddangos yn glir fod angen lleol am dai fforddiadwy yn bodoli mewn ardal benodol. Bydd yn ofynnol i brofi fod yr holl bobl y darperir y tai fforddiadwy ar eu cyfer MEWN GWIR ANGEN TŶ FFORDDIADWY AC YN DISGYN O FEWN Y DIFFINIAD O 'LLEOL'. Bydd y gallu i brofi dim ond un o'r rhain ddim yn gyfiawnhad digonol.

Bydd y Cyngor yn sicrhau, drwy ddefnyddio cytundebau cyfreithiol, y bydd manteision tai fforddiadwy ar gael i'r trigolion hynny sydd wedi byw neu weithio yn ardal y Cyngor Cymuned, neu yn ardal y Cyngor Cymuned cysylltiol (agosaf), am bum mlynedd neu fwy ac y mae eu hincwm yn rhy isel i'w galluogi i brynu neu i rentu tai ar y farchnad agored. Fel rheol, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r preswylwyr cyntaf a'r rhai dilynol i berthyn i un o'r categorïau isod:

(1) Pobl sydd wedi byw neu weithio yn ardal y Cyngor Cymuned, neu ardal Cyngor Cymuned cysylltiol, am bum mlynedd neu fwy sydd ag angen sefydlu aelwydydd am y tro cyntaf;

(2) Pobl sydd wedi byw neu weithio yn ardal y Cyngor Cymuned, neu ardal Cyngor Cymuned cysylltiol, am bum mlynedd neu fwy ac sydd yn trigo mewn tŷ sydd, ym marn y Cyngor, yn anaddas ar gyfer byw ynddo ac ei bod yn amhosibl ei adnewyddu ar gost rhesymol;

(3) Pobl anabl neu'r henoed sydd wedi byw neu weithio yn ardal y Cyngor Cymuned, neu ardal Cyngor Cymuned cysylltiol, am bum mlynedd neu fwy ac angen llety mwy addas ar gyfer eu hanghenion;

(4) Pobl sy'n gadael llety-clwm ac wedi byw neu weithio yn ardal y Cyngor Cymuned neu ardal Cyngor Cymuned cysylltiol am bum mlynedd neu fwy;

(5) Pobl sy'n darparu gwaith neu wasanaeth pwysig yn ardal y Cyngor Cymuned, neu ardal Cyngor Cymuned cysylltiol, ac yn wirioneddol angen byw yn agosach at y gymuned leol.

Ni ystyrir bod gan bobl angen lleol am dŷ os ydynt yn berchen, neu mewn rheolaeth o eiddo preswyl, a allai ateb eu hangen mewn modd rhesymol.

**Pwy gaiff ddarparu/datblygu tai fforddiadwy?**

Gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol, datblygwyr preifat yn ychwanegol i unigolion (yn cynnwys y rhai sy'n dymuno codi eu tai eu hunain, adeiladwyr neu berchnogion tir) ddatblygu tai fforddiadwy, yn amodol fod eu cynigion yn cydymffurfio gyda'r polisïau tai fforddiadwy cyfredol yn ogystal a chydymffurfio gyda'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy a'i holl atodiadau.

**Ym mhle gellir datblygu tai fforddiadwy drwy gyfrwng y Polisïau Tai Fforddiadwy cyfredol ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd?**

Mae polisïau wedi eu cynnwys yn y Cynlluniau Datblygu mabwysiedig ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd, a hynny er mwyn hwyluso'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar fathau penodol o safleoedd; y safleoedd yma yw:

a) Tai Newydd o fewn ffiniau datblygu aneddleoedd

Ymofynnir tai fforddiadwy ar safleoedd penodol o fewn ffiniau datblygu amryw math o anheddle. Mae safleoedd yn cynnwys rhai wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai, safleoedd heb eu dynodi, neu safleoedd a ddaw ar gael yn annisgwyl (ar hap) ar gyfer adeiladu tai. Rhaid i bob datblygiad gydymffurfio gyda gofynion y Polisïau perthnasol sydd wedi eu cynnwys yn y Cynlluniau Datblygu mabwysiedig cyfredol.

b) Safleoedd Eithrio Gwledig.

Yn ychwanegol, ac mewn achosion eithriadol, bydd Cynlluniau Datblygu presennol yn galluogi i ganiatâd gael ei roi ar dir addas, sydd yn gorwedd union gyferbyn ffiniau datblygu mathau penodol o aneddleoedd, er mwyn ymateb i'r angen am dai fforddiadwy mewn cymunedau lleol. Adnabyddir y rhain fel 'safleoedd eithrio'.

Ni chaiff Cynlluniau Datblygu ddynodi safleoedd o'r fath a bydd cynigion yn cael eu hasesu ar sail angen wedi ei brofi, addasrwydd y safle, gofynion lleol a fforddiadwyedd. Bydd gofyn fod y safle dewisedig yn gallu cael ei ddatblygu mewn modd sy'n cyfrannu yn bositif tuag at yr ardal ac nid cael effaith andwyol arno ac ei fod hefyd yn fforddiadwy. Dylai'r dwysedd, gosodiad, dyluniad, deunyddiau, tirlunio ayb warchod ag ategu cymeriad presennol y pentref neu'r ardal.

Gall uwchraddio tai presennol a throsi adeiladau ar gyfer defnydd preswyl hefyd wneud cyfraniad i'r stoc dai

Gall uwchraddio tai presennol a throsi adeiladau ar gyfer defnydd preswyl hefyd wneud cyfraniad i'r stoc dai. Gall trosi adeiladau i dai o fewn ffiniau datblygu leihau'r pwysau ar ryddhau tir gwyrdd ac yn gyffredinol fe edrychir yn ffafriol ar drosiadau o'r fath.

**Pam defnyddir mesurau Rheoli Deiliadaeth?**

Mae'n hanfodol sicrhau pan fo tai fforddiadwy yn cael eu darparu eu bod yn aros yn fforddiadwy i brynwyr a phreswylwyr dilynol. Yn ogystal yn achos anedd-dai sydd mewn perchnogaeth breifat, rhaid sicrhau fod yr anedd-dŷ yn cael ei ddefnyddio fel prif gartref y person sydd mewn angen tŷ fforddiadwy ac sydd yn cydymffurfio gyda'r diffiniad o lleol.

**Beth yw'r prif egwyddorion mewn perthynas a dyluniad tai fforddiadwy?**

**Safonau Dylunio**

Bydd math, maint a dyluniad tŷ yn effeithio ar ei fforddiadwyedd i'r preswylydd cyntaf ac i breswylwyr olynol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw gynnig i ddatblygu tai fforddiadwy o faint priodol fydd yn ymateb i angen lleol. Bydd rhaid yn ogystal ystyried y berthynas rhwng maint y plot a maint yr eiddo/nifer o dai i'w datblygu ayb. fel bod hyn hefyd yn adlewyrchu fforddiadwyedd yr eiddo.

Ni fydd Cyngor Gwynedd yn gwahaniaethu rhwng tai marchnad agored a thai fforddiadwy wrth weithredu ystyriaethau dylunio.

Bydd rhaid i bob datblygiad gael ei ddatblygu yn unol â Chanllawiau Dylunio Cyngor Gwynedd (Ebrill 2003) a gyda Chanllawiau Dylunio Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd (Ebrill 2005).

**Llunwedd a Dosbarthiad**

Er mwyn cynorthwyo i greu cymunedau cymysg a chytbwys, mae'r Cyngor yn edrych i sicrhau cymysgedd o faint, math a fforddiadwyedd wrth ddatblygu tai newydd. Dylai hyn gynnwys cymysgedd o wahanol fathau a maint o dai ar y farchnad, fel fflatiau a thai teras ar gyfer teuluoedd llai a thai i deuluoedd mwy, yn ogystal â thai fforddiadwy i fodloni amrywiaeth o anghenion lleol am dai.

Cred y Cyngor, mewn perthynas â safleoedd lle mae tai fforddiadwy i'w darparu, yw mai yr unig ffordd o sicrhau hyn ydi drwy integreiddio'r elfen tai fforddiadwy i mewn i ddyluniad a llunwedd y safle.

Ag eithrio'r tai fforddiadwy a ddarperir fel fflatiau, mae'r Cyngor yn disgwyl i'r tai fforddiadwy fod wedi'u gwasgaru ledled y safle yn hytrach na bod wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn un rhan o'r safle.

**Maint Derbyniol**

Rhaid i'r anedd-dai beidio bod yn rhy fawr yn ystyr maint yr eiddo sydd ei angen ar gyfer ateb angen penodol (neu ni fydd yn fforddiadwy i bobl eraill).

**Angen Tir ar gyfer Tai Fforddiadwy – Gwahoddiad i Berchenogion Tir**

Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn awyddus iawn i glywed gan berchenogion tir sy'n fodlon helpu ein cymunedau lleol i gwrdd â'r her o ddarparu tai fforddiadwy yng Ngwynedd, drwy gynnig tir sy'n addas ar gyfer tai fforddiadwy.

Rydym yn chwilio am dir sydd oddi mewn neu union ar ymyl ffin datblygu y trefi a phentrefi hynny yng Ngwynedd. Os ydych yn berchen tir yr ydych yn meddwl fyddai'n addas ar gyfer tai fforddiadwy, a fyddech cystal ag anfon manylion y tir yr ydych yn dymuno i gael ei ystyried i'r cyfeiriad isod. Bydd angen i chi gofio cynnwys map yn dangos lleoliad a ffiniau'r safle.

Swyddog Tai Fforddiadwy
Cyfadran Amgylchedd
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
Rhif ffon: 01286 679 498
Neu e-bost:
taifforddiadwy@ gwynedd.gov.uk

## CYNEFIN

A fyddech yn hoffi gweld Mynydd Bodafon dan orchudd o eithin mân a grug, cael clywed hanes y wiwer goch yn dychwelyd i Fôn, teimlo'r heli ar gregyn y traeth, blasu ffrwythau'r hydref neu arogli'r gwyddfid ar awel yr hwyr?

Os felly, beth am ymuno â Bethan Wyn Jones i drafod gwahanol agweddau o fyd natur. Bydd y cwrs deg wythnos o hyd, yn rhoi cyflwyniad i wahanol agweddau ar fyd natur, adar, anifeiliaid, blodau, coed, llysiau llesol gyda chyfeiriadau at fyd natur mewn llên gwerin, chwedlau, a barddoniaeth.

Mae Bethan Wyn Jones yn enw cyfarwydd i lawer gan fod ganddi erthygl ar wahanol agweddau o fyd natur yn y *Daily Post* bob dydd Mercher, a chyn hynny yn yr *Herald Cymraeg*. Mae hefyd yn llais cyfarwydd ar raglen *Galwad Cynnar* ar Radio Cymru ac yn ddiweddar cyhoeddwyd *Chwyn Joe Pye a Phincas Robin*, sydd yn gyfrol boblogaidd iawn.


Bydd y cwrs yn cael ei gynnal yn ystafell 106 Prif Adeilad y Celfyddydau, Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, bob nos Lun rhwng 7 a 9 o'r gloch, gan ddechrau nos Lun, 3 Hydref. Cost y cwrs fydd £80 a £40 i'r rhai sydd dros 60 oed. Am fwy o fanylion am y cwrs ac i gofrestru cysylltwch â Nia Llwyd, Adran Dysgu Gydol Oes, Stryd y Deon, Bangor. Ffôn: (01248) 382909.

* * *

Sawl Bangor sydd? Pam bod Aberystwyth yn y lle anghywir? Pam y galwyd trigolion Efrog Newydd yn Yankees? Pam bod cae yn cau? Pam y daeth 'ffordd' o 'ford' Os ydych yn awyddus i gael yr atebion i'r cwestiynau yma ac i ganfod mwy am darddiad enwau lleoedd, yna pam na ddowch chi i'r cwrs 'Trafod Enwau Lleoedd' fydd yn cael ei gynnal yn Ysgoldy Ebeneser, Llanfairpwll, bob bore Mawrth rhwng 10.30 a 12.30, gan ddechrau 4 Hydref 4. Y darlithydd fydd yr Athro Hywel Wyn Owen, sydd yn arbenigwr yn ei faes ac yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Enwau Lleoedd ym Mhrifysgol Bangor.

Cost y cwrs fydd £80 am ddeg wythnos, neu £40 i'r rhai sydd dros 60 oed. Am fwy o fanylion am y cwrs, ac i gofrestru cysylltwch â Nia Llwyd, Adran Dysgu Gydol Oes, Stryd y Deon, Bangor. Rhif ffôn (01248) 382909.

# CROESAIR MEDI



**Mae cysylltiad rhwng yr atebion i'r cliwiau rhifyddol.**

**Ar Draws:**

1 4 (7)
5 10 (7)
9 Yr ochr draw – ar wahân (6)
10 Dechrau sylwi i wenyn gasglu rownd y peth melys! (5)
12 Mynd yn dywyll .... (4)
16 ...... cyn gweld adfywiad crefyddol (8)
17 6 (8)
19 Seibiant byr – am eiliad? (8)
22 Y marc sy'n rhan o wisg y cardotyn! (3)
24 Mae'n weddus dechrau gwisgo'r wisg i weithio! (4)
25 5 (8)
29 Cyfrol o gerddi Waldo Williams (4 4)
33 Y nifer o ochrau mewn deg 5 ar draws (4)
34 Lle cyfannedd ychydig mwy na phentref, ond eto'n rhan o'r pentref!! (3)
35 7 (8)
40 Pethau ysgrifenedig yn cynnwys gwybodaeth (8)
42 Gŵr ifanc, a Dai y Cwm meddw yn pwyntio atynt! (8)
44 Llinyn offeryn cerdd (4)
46 Amser neu le cyfaddas (5)
47 3 (6)
48 Rhodd ddirgel, yn aml wedi ei gadael ar fwrdd y tŷ bwyta (3-4)
49 Llygod ag arnynt nam, ond yn colli dim!! (7)

**I lawr**

1 Lle i weinyddu cosb (7)
2 Pobl sy'n plymio i'r môr am fod eu dillad yn llosgi? (7)
3 8 (7)
4 Gweithred gyfrwys er mwyn twyllo (4)
6 Dechrau eillio gyda rasal yn eofn! (3)
7 Y ferch o Ddolwar Fach (3)
8 Mab fy chwaer (3)
11 Rhywbeth wedi ei wau (3)
13 Rhai diog sy'n gwrthod gweithio (7)
14 Torri cysylltiad ..... (6)
15 ... â neidr wenwynllyd o'r Aifft? (3)
17 Tatws had (5)
18 Chwant neu brinder bwyd (5)
20 Trydydd person unigol amser presennol modd mynegol bod (3)
21 Gweithred mewn drama? (3)
23 Dim ond ugain yn llai!... (3)
25 ..... mewn bwndel bach! (5)
26 9 (7)

Derbyniais atebion i groesair mis Gorffennaf gan Eluned Jones a D. B. Williams, Trefor; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Moreen Lennon, Aylwyn Hughes a Nan Owen, Llanberis; N. Hughes, Cwmyglo; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Gwen Griffith, Deiniolen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Megan Morris, Dinorwig; Alvona Jones, Prestatyn; Elfed Evans, Llanllechid; Jennie Williams, Clynnog; H.O. Hughes, Pwllheli; Hywel Griffith, Awstralia; Gareth Oliver, Tregarth; Pat Owen, Caefyrddin ac E. E. Jones, Rhoshirwaun.

Moreen Lennon, Plas Tirion, Llanbeis LL55 4HD ydi enillydd y mis. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Medi, gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 19 Medi



# RODDION

£50: Er cof am Mrs Nan Jones, Perthi, Llanrug.

£15: Mr a Mrs Humphrey Jones, Caeau Gleision, Rhiwlas, er cof am Gwion.

£10: Dafydd Price a'r teulu, Padarn View, Llanberis; Alan a Jacqueline, 9 Stad Tŷ Hen, Waunfawr; Jane Ceridwen Foulkes, 21 Hafod Oleu, Deiniolen; Ifan W. Williams ar ran Pwyllgor Aduniad Ysgol Sir Brynrefail; Mrs Ellen Roberts, 3 Bryn Moelyn, Llanrug; Er cof am Mrs Nancy Morris, Awelfryn, Tan y Coed; Mr a Mrs Llew Jones, Rhosbodrual, Caernarfon; Teulu Carrog, Waun, Penisarwaun.

£6: Susan ac Emyr Williams, Pant Hyfryd, Ceunant

£5: Ralph a Nancy Jones, Taliesin, Llanberis; Jane Jones, Peris View, Llanberis; Glenys Lloyd Jones a Mary Lloyd Lewis, Deiniolen; Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, Waunfawr; Margaret Mary Lloyd, Deiniolen; Teulu'r ddiweddar Mrs Nel Lewis, (Nel Gorlan), Deiniolen; Ellis Evan Davies, Deiniolen; Mrs Joan Parry, Deiniolen; Di-enw, er cof am Cathy Burrows, Cae Main, Deiniolen gynt; Mrs Williams, Bron Eryri, Llanrug; Di-enw, Bethel; Nerys Owen, Wern Las, Bethel; Mrs Rene Morris, 2 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Bessie Williams, Llys Myfyr, Bron y Waun, Penisarwaun; Eirian ac Elfed, gynt o Glanffynnon, Llanrug.

£4: Mr a Mrs B. Owen, 1 Erw Wen, Caeathro.


£3: Gwerfyl Jones, 9 Maes Padarn, Llanberis.

£2: Mrs Elisabeth Pitts, 53 Dôl Elidir, Llanberis

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


FINE ART TRADE GUILD
**ORIEL CWM**
**Cwm y Glo**
**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
**RHOSTIO MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk


**GWYNANT PIERCE**
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
**Uned 1, Fferm Bryn Afon**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 674183**
**(0589) 899901**

Harddwch eich cartref gyda
**FFENESTRI CELTIC** *WINDOWS*
SECURE IN OUR PROTECTION
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
*Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris*
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

# CHWARAEON

## Llanw – a Thrai!

Yn y rhifyn olaf roeddwn yn cyfeirio at y twf rhyfeddol ym mhoblogrwydd y gêm undydd – a 20–20 yn benodol, ym myd criced. Soniais fel yr oedd tueddiad i weld gemau prawf a rhyng-sirol yn ddi-liw a digyffro. Diolch i gyfres y 'Lludw' mae nifer o'r 'hen deip' yn gwenu'n dawel.

A welwyd cystal cyfres tybed? Mae rhai agweddau o'r gyfres gyfredol wedi ymestyn ffiniau. Sgorio dros 350 o rediadau mewn diwrnod! Bowlwyr yn ymosodol a chrefftus dros gyfnod hir o amser! Safon y maesu yn rhyfeddol – ond rhaid dweud mai siom yw gweld sawl cyfle o ddaliad yn cael ei gollwng. Torfeydd yn llenwi'r meysydd – a miloedd yn cael eu cloi allan!

Yn y cyswllt yma rhaid canmol y ddau gapten – Vaughan a Ponting. Dyma ddau gapten sy'n ymdrechu i 'chwarae i ennill' yn hytrach na 'chwarae i beidio colli'. Aeddfedodd sawl un yn y gyfres – Flintoff yw'r un amlwg. Mae wedi ffrwyno yr 'adrenalin' pan mae'r bêl neu'r bat yn ei law. O'r ddisgyblaeth yma daeth chwaraewr dawnus iawn a all ddatblygu yn un o fawrion y gêm.

Yr un modd, Simon Jones. Ei dueddiad oedd bowlio yn fyr. Tacteg lwyddiannus ymysg y siroedd ond nid ar y lefel uchaf. Erbyn hyn mae'n cadw'r bêl i fyny i'r bat, a gyda'r ddawn i siglo'r bêl, mae yn fowliwr cyfrwys iawn.

Os llanw yw hi ar y lefel uchaf, trai yn sicr yw hi draw ym Morgannwg. Oherwydd anafiadau, ymddeoliadau a galwadau prawf y mae'r cwpwrdd yn wag iawn o dalent. Y mae'r bowlio yn ddi-ddannedd, ac nid oes aeddfedrwydd yn y batio i sicrhau batiad hir. Bowliwyd Morgannwg allan ganol y prynhawn cyntaf am rhyw 250. Ychydig o rediadau mewn amser byr a nifer o'r batwyr yn cael eu bowlio allan oherwydd ceisio chwarae ergyd rhy ymosodol. Meddylfryd y gêm undydd, efallai?

Bydd Morgannwg yn disgyn i'r ail adran ym Mhencampwriaeth y Siroedd, ac efallai yng Nghynghrair Totesport hefyd. Llai o elw yn sicr, a llai o noddwyr. Mae cyfnod anodd yn wynebu'r sir a nifer o ieuenctid yn cael eu taflu i 'ffau'r llewod' cyn eu bod yn ddigon aeddfed. Ysgol ddrud yw ysgol brofiad.

A yw Mathew Maynard wedi torri ei gysylltiad â'r sir? Mae gyrfa hyfforddi ar lefel ryngwladol ar y gorwel. Roedd rhai yn gobeithio ei weld yn dychwelyd fel hyfforddwr ar y sir. Amser a ddengys.

Cwestiwn mawr yw a fydd Robert Croft yn ddigon cryf – ac yn ennyn digon o barch – i symbylu'r chwaraewyr ieuanc. A fydd Croft yn newid sir, neu yn llygadu gyrfa deledol?

Mewn cyfnod o drai mae llawer o gwestiynau, ac ychydig o atebion!

## Tlws yr Eco

Unwaith eto eleni cafwyd tair noson gystadleuol iawn, ond gyda llai o goliau nag arfer. Efallai bod y dulliau amddiffyn yn gwella, neu bod y goliau yn mynd yn rhy fach. Serch hynny, cafwyd cystadlu brwd ac awyrgylch iach i'r tair noson. Diolch i'r rheolwyr a'r rheini am eu cefnogaeth barod.

Yn anffodus, ni ellid cynnal y gystadleuaeth bêl-rwyd gan fod gwaith atgyweirio ar iard yr ysgol. Mae'n fwriad efallai aildrefnu'r gystadleuaeth.

Diolch yn arbennig i bwyllgorau Llanrug a Bethel am eu cefnogaeth. Roedd cyflwr y meysydd yn arbennig. Diolch hefyd i Robin Williams a'i griw, am noson lwyddiannus i'r rhai dan 9 ar faes yr ysgol.

Ar noson boeth, aeth y Tlws dan 7 i glwb Llanrug. Bu hi'n agos iawn dan 9 ac yn y rownd derfynol yr hen elynion, Llanberis a Llanrug 'A,' oedd yn herio'i gilydd. Cafywd sawl cyfle ond gôl Iwan Evans i Lanrug enillodd y tlws.

Dan 11, ar eu tir eu hunain dau dîm Bethel – 'A' a Gwyn – oedd yn ymlafnio. Yr 'A' gipiodd y tlws o 3–1, i gwblhau tymor llwyddiannus iddynt mewn nifer o gystadlaethau.

## Hybu'r Gwreiddiau

Os am greu adfywiad mewn unrhyw faes, rhaid gwneud yn siŵr fod y gwreiddiau yn iach. Dyma yn sicr yw'r bwriad yn Neiniolen. Cyfnod o drai fu hi ar y lefel hŷn ers ambell dymor bellach, ond yr oedd cnewyllyn bychan yn barod i gynnal y fflam. Rhaid felly canmol y criw gweithgar sy'n rhoi o'u hamser i gynnal timau ieuenctid y pentref – gwreiddiau y dyfodol gobeithio.

Yn ddi-os mae balchder o hyd mewn cael cynrychioli Llanbabs – a gwelwyd hynny yn ysbryd ac ymosodiad aelodau'r timau yn Nhlws yr Eco.

Yn ddiweddar cynhaliwyd noson wobrwyo y clwb, a daeth un o'r sêr – Malcolm Allen – adref fel gŵr gwadd. Diolch i Colin ac Ellen am eu harweiniad a'u cefnogaeth wrth drefnu'r noson. Cyflwynwyd tlysau i garfannau dan–7, dan–9, dan–11 a dan–13. Edrychwn ymlaen at eu datblygiad ac at aildanio'r fflam ar y Bwthyn.



*Malcolm, Ellen a Colin gyda'r garfan dan–7.*



*Y garfan dan–13 gyda'u tlysau.*

## Sawl Du Dros y Blynyddoedd?



*Stan Roberts, enillydd cyntaf Tlws Coffa J. G. Jones, tymor 2004–2005.*

Un o'r tlysau pwysig yng Nghynghrair Snwcer Bangor a'r Cylch yw Tlws Coffa J. G. Jones. Rhoddwyd y tlws gan y teulu er cof am eu tad. Y bwriad yw gwobrwyo unigolyn am wasanaeth neu berfformiad yn ystod y flwyddyn neu dros gyfnod o flynyddoedd.

Enillydd cyntaf y tlws yw Stan Roberts. Mae yn enillydd teilwng gan iddo gystadlu yn y gynghrair am dros 60 mlynedd! Anhygoel yn wir. Braf fuasai gwybod am rai o'r gemau neu chwaraewyr mae'n ei gofio. Beth am ei rediad uchaf?

Cyflwynwyd y tlws i Stan gan Kevin Jones, un o'r meibion.